# Pecyn Cymorth Dim Cyn-filwyr Digartref Cymru

**Laura Paterson, Aelod Cyswllt Homeless Link**

**Sophie Price, Rheolwr Ymgynghoriaeth**
sophie.price@homelesslink.org.uk

## Cynnwys


Cyflwyniad **3**

- Y Pecyn Cymorth **3**
- Ymgyrch Dim Cyn-filwyr Digartref **4**

Pam y gallai Cyn-filwr Brofi Digartrefedd? **5**

Nodi Cyn-filwyr **6**

- Pwy sy'n Gyn-filwr **6**
- Pam Nodi Statws Rhywun fel Cyn-filwr? **7**
- Pa Gwestiynau y Dylem Fod yn eu Gofyn? **7**
- Sut i Nodi Cyn-filwyr **8**

Cyfamod y Lluoedd Arfog **9**

- Beth yw Cyfamod y Lluoedd Arfog? **9**
- Tai a Chyfamod y Lluoedd Arfog **10**
- Bil y Lluoedd Arfog **11**

Dull Gweithredu Strategol **13**

- Sut y Gallwn Ddatblygu Dull Strategol o Fynd i'r Afael â Digartrefedd sy'n Ystyried Cyn-filwyr? **13**

Gwybodaeth a Chyngor Pwrpasol **15**

- Gwybodaeth a Chyngor **15**
- Pa Gyngor a Gwybodaeth y Dylech Fod yn eu Rhoi? **16**

Atal Digartrefedd Ymhlith Cyn-filwyr **17**

- Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog **17**
- Atal Digartrefedd **17**

Digartrefedd **20**

- Cynlluniau Tai Personol **20**
- Pan fo Cyn-filwr yn Ddigartref **21**
- Beth y Gallwn ei Wneud i Wella ein Dull Gweithredu? **23**

Tai Cymdeithasol **24**

- Polisïau Dyraniadau **24**
- Beth mae'r Gyfraith yn ei ddweud **24**
- Beth y Gallwch Ni ei Wneud? **25**
- Dod o Hyd i Dai Cymdeithasol **28**
- Perchentyaeth Cost Isel **30**
- Datblygu Tai Cymdeithasol **31**
- Tenantiaid Newydd **32**

Tai â Chymorth **33**
Beth yw Tai â Chymorth? **33**
Tai â Chymorth Arbenigol i Gyn-filwyr **34**
Gofyn y Cwestiwn am fod yn Gyn-filwr **36**
Cynllunio Cymorth **36**
Camu Ymlaen **37**
Gwybodaeth ac Ymwybyddiaeth Staff **37**
Beth Gall ein Sefydliad ei Wneud fel Cyflogwr? **39**
Cymorth i Gyn-filwyr **41**
Atodiad 1: Rhestr wirio **45**
Atodiad 2: Homeless Link **49**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Y Pecyn Cymorth

Nod y pecyn cymorth hwn yw darparu adnodd gwerthfawr i Awdurdodau Tai Lleol, Cymdeithasau Tai, a Darparwyr Tai â Chymorth i'w galluogi i nodi cyn-filwyr yn well a diwallu anghenion tai ac anghenion cymorth ehangach cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae'r pecyn cymorth wedi'i greu i'w ddefnyddio ochr yn ochr ag adnoddau hunanarchwilio. Bydd yr adnodd archwilio yn rhoi llinell sylfaen i chi o ran pa mor dda rydych yn nodi ac yn diwallu anghenion tai cyn-filwyr. Mae hyn wedyn yn cysylltu â'r pecyn cymorth a fydd yn nodi unrhyw ofynion statudol, sut y gellid gwella eich dull gweithredu, ac enghreifftiau o arfer gorau ac arloesedd.

Rhennir y pecyn cymorth yn nifer o adrannau sy'n ei gwneud yn hawdd ei ddefnyddio ac sy'n eich galluogi i gael gafael ar y wybodaeth a'r cyngor sydd fwyaf perthnasol i'ch sefydliad.

Nod y pecyn cymorth yw:

- Helpu staff tai rheng flaen i nodi cyn-filwyr.
- Rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar staff tai rheng flaen i ddeall a chyrraedd safonau statudol ac arfer gorau mewn perthynas â chyn-filwyr a'u hanghenion tai.
- Amlinellu'n glir y camau sydd angen eu cymryd i gyflawni eu rolau a chydymffurfio â'r holl ganllawiau statudol.
- Rhoi enghreifftiau o arfer gorau ac argymhellion ar sut y gall sefydliadau “fynd gam ymhellach” i gefnogi cyn-filwyr a gweithio tuag at ddod â phrofiadau cyn-filwyr o ddigartrefedd i ben.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

## 1.2 Ymgyrch Dim Cyn-filwyr Digartref

Mae'r ymgyrch Dim Cyn-filwyr Digartref yn darparu gwybodaeth ac adnoddau er mwyn helpu Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai a Darparwyr Tai â Chymorth i nodi ac ymateb i anghenion cyn-filwyr digartref.

Nod yr ymgyrch Dim Cyn-filwyr Digartref, a arweinir gan Glwstwr Tai Cobseo (Cydffederasiwn Elusennau'r Lluoedd Arfog), yw sicrhau bod cyn-filwyr digartref neu'r rhai sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref yn cael eu nodi a'u cyfeirio at y cymorth y mae ganddynt yr hawl i'w gael, a hynny mor gyflym â phosibl. Caiff yr ymgyrch ei chydlynu gan Stoll a'i chyflawni ochr yn ochr â Homeless Link a'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o gyn-filwyr yn pontio'n ddidrafferth o fywyd milwrol i fywyd sifil – ond mae rhai cyn-filwyr, yn enwedig cyn-filwyr iau a'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn gynnar, yn profi digartrefedd.

Er gwaethaf ymrwymiadau a bwriadau da Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae llawer o gyn-filwyr yn byw mewn llety amhriodol, yn cysgu ar soffa ffrindiau, neu'n byw mewn hosteli nad ydynt yn addas i'w hanghenion. Mae rhai yn ddigartref ac yn cysgu ar y stryd.

Mae help i ddod o hyd i dai priodol ar gael i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog, ond weithiau bydd pobl yn colli allan oherwydd nid ydynt yn cael eu nodi'n gyn-filwyr neu nid yw'r rhai sy'n eu helpu yn gallu cael gafael ar yr holl wybodaeth y gall fod ei hangen arnynt.

Yn ôl ymchwil gan Brifysgol Stirling, anghenion tai llai na hanner y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog sy'n cael eu diwallu cyn iddynt adael. Er bod cyn-filwyr sy'n cael cymorth yn gadarnhaol fel arfer am y cymorth a roddir gan elusennau ac Awdurdodau Lleol, mae angen dull mwy cydgysylltiedig rhwng Awdurdodau Lleol, Darparwyr Tai, elusennau digartrefedd a sefydliadau cyn-filwyr er mwyn sicrhau nad yw cyn-filwyr yn parhau i lithro drwy'r rhwyd.

Gall cyn-filwyr fod yn arbennig o hyglwyf, a chredir bod angen cymorth ar tua 3-4,000 o gyn-filwyr bob blwyddyn i ddod o hyd i lety – mae llawer ohonynt o'r farn eu bod yn isel ar restrau blaenoriaeth.

Ar unrhyw adeg, mae rhwng 2% a 3% o'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd yn Lloegr yn gyn-filwyr. Bob blwyddyn, mae hyd at 400 o gyn-filwyr yn cysgu allan.

Nod yr ymgyrch Dim Cyn-filwyr Digartref yw sicrhau bod cyn lleied o achosion o ddigartrefedd ymhlith cyn-filwyr â phosibl.

Rydym am sicrhau bod cyn-filwyr digartref neu'r rhai sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref yn cael eu nodi a'u cyfeirio at y cymorth y mae ganddynt yr hawl i'w gael, a hynny mor gyflym â phosibl.

Rydym am sicrhau bod anghenion cyn-filwyr yn cael eu hymgorffori yn strategaethau pob Awdurdod Lleol, elusen digartrefedd a Chymdeithas Dai a bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i nodi cyn-filwyr a diwallu eu hanghenion.

## 2. Pam y gallai Cyn-filwr Brofi Digartrefedd?

Mae'r mwyafrif helaeth o gyn-filwyr yn pontio'n ddidrafferth i fywyd sifil ar ôl gadael y Lluoedd Arfog, a nifer cymharol fach ohonynt sy'n profi digartrefedd neu'n mynd ymlaen i gysgu allan.

Mae cyfarwyddyd statudol ar dai a digartrefedd yn cynnwys mwy o ganllawiau mewn perthynas â chyn-filwyr. At hynny, mae 10,200[1] o unedau llety sydd wedi'u neilltuo'n benodol ar gyfer cyn-filwyr sydd ag anghenion tai brys, a gall cyn-filwyr ddefnyddio gwasanaethau tai a digartrefedd prif ffrwd hefyd. Mae hyn yn awgrymu, drwy ganolbwyntio'n benodol ar ddiwallu anghenion tai cyn-filwyr, y gall fod yn bosibl lleihau nifer yr achosion o ddigartrefedd ymhlith cyn-filwyr ac, o bosibl, ddod â'r profiadau hynny i ben yn gyfan gwbl.

Fodd bynnag, gwyddom fod cyn-filwyr a'u teuluoedd yn profi digartrefedd – gall hyn fod am amrywiaeth o resymau ac er y gall ddigwydd ar ôl iddynt adael y Lluoedd Arfog, gall ddigwydd hefyd yn ddiweddarach.

Bydd achosion digartrefedd fwy neu lai'n union debyg i'r rhai ar gyfer unrhyw unigolyn arall sy'n wynebu digartrefedd. Fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau sy'n benodol i fywyd cyn-filwr a all olygu ei bod yn fwy tebygol y bydd yn profi digartrefedd.

Ymhlith y rhesymau y gall cyn-filwyr a'u teuluoedd brofi digartrefedd mae'r canlynol:

- Proses bontio a reolir yn wael neu broses bontio annisgwyl allan o'r Lluoedd Arfog.
- Disgwyliadau afrealistig o'r opsiynau tai sydd ar gael.
- Anghenion cymorth, gan gynnwys iechyd meddwl ac anhwylder straen wedi trawma.
- Tor-perthynas.

[1] Doherty, R., Cole, S., Robson, S. (2018) Focus On: Armed Forces Charities' Housing Provision. Directory of Social Change: Llundain.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

**Stori Terry**

Ymunodd Terry â'r Lluoedd Arfog ar ôl marwolaeth ei frawd yn 18 oed pan oedd yn gwasanaethu gyda'r Gatrawd Barasiwtwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Yn ystod ei wasanaeth, bu Terry yn Awyrfilwr yng Ngogledd Iwerddon ac Ynysoedd Falkland. Yn ystod ei wasanaeth yn Ynysoedd Falkland, gwelodd Terry lawer o bethau ofnadwy a dioddefodd hunllefau ac ôl-fflachiadau. Gadawodd y Lluoedd Arfog yn 1988.

Yn 1990, roedd Terry yn dal yn filwr wrth gefn a chafodd ei alw'n ôl ar gyfer Rhyfel cyntaf y Gwlff. Dadleuodd na ddylai fynd am resymau meddygol oherwydd anhwylder straen wedi trawma (PTSD). Ar ôl gwneud yn dda hyd at y pwynt hwnnw, chwalodd ei nerfau. Cafodd ef a'i wraig ysgariad ac aeth i "le tywyll". Roedd yn teimlo'n isel ac yn ystyried hunanladdiad, a bu'n cysgu ar soffa ffrindiau ac yn ei gar am tua 18 mis. Cysylltodd Terry â Chymdeithas Medalau De'r Atlantig. Rhoddwyd manylion Stoll iddo a llwyddon nhw i ddod o hyd i fflat iddo ym Mhlastai Syr Oswald Stoll yn Fulham, Llundain.

Ar yr adeg hon, roedd Terry yn dal i wynebu anawsterau, roedd yn camddefnyddio alcohol a chyffuriau meddal, a theimlai na allai adael ei fflat am flwyddyn gyfan. Drwy Stoll a'r GIG, daeth o hyd i seiciatrydd a wnaeth ei helpu i reoli'r PTSD.

Aeth Terry ymlaen i fod yn gadeirydd Cymdeithas Preswylwyr Stoll, gan gefnogi'r tîm rheoli a'r tenantiaid ar y safle. Tra roedd yn dal i fod yn Stoll, dechreuodd Terry wneud rhywfaint o waith gwrth-fôr-ladrad fel rhan o'r tîm diogelwch arfog ar longau cymwysyddion. Cafodd ei anfon i weithio yn Tanzania lle y gwnaeth gyfarfod â'r ferch sydd bellach yn wraig iddo, a chawsant fabi ym mis Ionawr 2020.

Ers hynny, mae Terry wedi dechrau cwmni arlwyo a lletygarwch llwyddiannus.

Wrth edrych yn ôl ar ei amser yn Stoll, dywed Terry, "y sicrwydd o wybod bod gen i rywle y gallwn i aros am oes wnaeth helpu i roi fy mywyd ar ben ffordd eto".

**Include photo**

## 3. Nodi Cyn-filwyr

### 3.1 Pwy sy'n Gyn-filwr

"Mae'r Llywodraeth yn diffinio cyn-filwr fel unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi naill ai fel Milwr Rheolaidd neu Filwr Wrth Gefn, neu unrhyw un sydd wedi gwasanaethu yn y Llynges Fasnachol ar

ymgyrchoedd milwrol a ddiffinnir yn gyfreithlon. Mae cyn-filwyr eisoes wedi gadael Lluoedd Arfog y DU."[2] (cyfieithiad)

## 3.2 Pam Nodi Statws Rhywun fel Cyn-filwr?

Mae amrywiaeth o gymorth arbenigol ar gael i gyn-filwyr a'u teuluoedd. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o sefydliadau tai yn gofyn i bob cwsmer a yw'n gyn-filwr neu'n aelod o deulu cyn-filwr. Os na ofynnir y cwestiwn hwn, mae risg y gallai cyn-filwyr golli allan ar y cymorth arbenigol hwn.

Byddem yn argymell y dylid gofyn cwestiwn gorfodol er mwyn sicrhau bod modd nodi unrhyw gyn-filwyr (neu aelodau o deulu cyn-filwyr) a'u cyfeirio at yr help a'r gefnogaeth sydd ar gael.

## 3.3 Pa Gwestiynau y Dylem Fod yn eu Gofyn?

Ar adeg y cyswllt cyntaf, dylai sefydliadau tai ofyn cwestiwn gorfodol i bob cleient er mwyn nodi a yw'n gyn-filwr, sef a oes ganddo/ganddi unrhyw gysylltiad â'r Lluoedd Arfog.

Dylai'r cwestiwn nodi a yw'r cleient yn:

- Cyn-aelod o Luoedd Arfog EM – Milwr Rheolaidd neu Filwr Wrth Gefn.
- Gŵr/gwraig neu bartner aelod neu gyn-aelod o Luoedd Arfog EM.
- Gŵr gweddw/gwraig weddw aelod o Luoedd Arfog EM.
- Cyn-ŵr/gwraig neu gyn-bartner aelod neu gyn-aelod o Luoedd Arfog EM (wedi ysgaru neu wedi gwahanu'n ddiweddar)

Mae'n bwysig bod aelodau o staff yn esbonio pam mae'r cwestiwn hwn yn cael ei ofyn, sef er mwyn nodi a all fod gan y cleient yr hawl i gael unrhyw help neu gefnogaeth ychwanegol.

---

[2] Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn (2018) The Strategy for our Veterans. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/755915/Strategy_for_our_Veterans_FINAL_08.11.18_WEB.pdf

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.

Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

## 3.4 Sut i Nodi Cyn-filwyr

Gall y rhan fwyaf o gyn-filwyr ddarparu tystiolaeth o'u statws. Gall y dystiolaeth hon gael ei darparu mewn tair ffordd:

**1. Tystysgrif Diwedd Hawl i Feddiannu Llety'r Lluoedd Arfog**

Hyd at chwe mis cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r Lluoedd Arfog, gellir rhoi *Tystysgrif Diwedd Hawl i Feddiannu Llety'r Lluoedd Arfog* i aelodau o'r Lluoedd Arfog. Derbynnir hyn nawr fel prawf eu bod o dan fygythiad o ddigartrefedd. Weithiau, bydd aelodau o'r Lluoedd Arfog yn gadael yn annisgwyl. Mae dogfen *Rhyddhau ar Fyr Rybudd*, er enghraifft o ganlyniad i ryddhau unigolyn am resymau disgyblu neu am gamymddwyn, yn ddilys hefyd a gall roi cyn lleied â 28 diwrnod o rybudd iddo/iddi adael llety a ddarperir gan y Lluoedd Arfog a dychwelyd i fywyd sifil.

**2. Papurau Rhyddhau**

Efallai y bydd aelodau o'r Lluoedd Arfog yn cael sawl dogfen yn ystod proses ryddhau safonol a fydd yn dangos eu bod yn gyn-filwr. Gellir cyflymu'r broses o gadarnhau eu bod yn gyn-filwyr a'u cyfeirio at y ffynonellau cymorth mwyaf priodol drwy ofyn iddynt ddangos eu *papurau rhyddhau*, *rhybudd i adael llety'r Lluoedd Arfog*, neu *ffurflen rhyddhau meddygol* pan fyddant yn gwneud cais am gymorth o ran tai. Gall papurau rhyddhau meddygol fod yn ddefnyddiol i nodi angen blaenoriaethol. Cofiwch, bydd gan unrhyw gartref sy'n cynnwys cyn-filwr neu bobl sy'n aelodau o'r Lluoedd Arfog, fel y disgrifir uchod, hawl i ddarpariaethau arbennig o ran digartrefedd a dyraniadau tai cymdeithasol (a gwmpesir yn ddiweddarach yn y pecyn cymorth hwn). Dyna pam ei bod hi'n bwysig cofio, efallai nad yw unigolyn sy'n gwneud cais i Awdurdod Lleol yn aelod neu'n gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog ei hun, ond os yw'n byw gydag aelod o'r teulu sydd yn aelod neu'n gyn-aelod, ei fod yn aelod o gymuned y Lluoedd Arfog.

**3. Cardiau Adnabod Cyn-filwyr**

O 2019, gall fod gan rai cyn-filwyr *garden adnabod cyn-filwyr* am eu bod wedi dechrau cael eu rhoi i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog. Gall y garden gadarnhau hanes yr unigolyn yn y Lluoedd Arfog hefyd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, gan nad yw'r garden yn orfodol, ei bod yn hanfodol parhau i "ofyn y cwestiwn" a chadarnhau bod yr unigolyn wedi gwasanaethu gan ddefnyddio'r dulliau eraill a ddisgrifir.
Os nad oes gan yr unigolyn unrhyw ddogfennaeth ategol, yr unig ffordd o gadarnhau ei fod yn gyn-filwr yw drwy gadarnhau gyda'r corff statudol Veterans UK.

Veterans UK: www.gov.uk/government/organisations/veterans-uk
E-bost: veterans-uk@mod.gov.uk
Rhadffôn (DU yn unig): 0808 1914 218

**Argymhellion**

→ Ewch ati i adolygu eich ffurflenni tai allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn gofyn ‘y cwestiwn am fod yn gyn-filwr’. (Gallai'r rhain gynnwys ffurflen y Gofrestr Dai, ffurflen asesu digartrefedd, ffurflen atgyfeirio, ffurflen tenant newydd, neu ddogfennau cynllunio cymorth).

→ Sicrhewch fod y staff yn gallu esbonio pam maen nhw'n gofyn y cwestiwn hwn ac yn deall diben gofyn y cwestiwn.

# 4. Cyfamod y Lluoedd Arfog

## 4.1 Beth yw Cyfamod y Lluoedd Arfog?

Addewid gan y genedl yw Cyfamod y Lluoedd Arfog sy'n nodi y bydd y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg.

Y ddwy egwyddor sy'n sail i'r Cyfamod yw:

- Na ddylid Cymuned y Lluoedd Arfog wynebu anfantais o gymharu â dinasyddion eraill wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a masnachol.
- Bod ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rhai sydd wedi rhoi'r mwyaf, fel yr anafedig neu deulu'r ymadawedig.

O ran Awdurdodau Lleol, mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid y bydd cymuned sifil a'i chymuned Lluoedd Arfog leol yn cefnogi ei gilydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cydberthnasau cryf â phob un o'i phartneriaid allweddol, gan feithrin a hyrwyddo'r Cyfamod yng Nghymru. Mae pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol wedi llofnodi Cyfamod Cymunedol, sy'n dangos eu hymrwymiad i gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Mae Awdurdod Lleol sydd wedi llofnodi'r Cyfamod yn addo annog cymunedau lleol i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yn yr ardal, meithrin dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion sy'n effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog a gwneud eithriadau ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog sydd wedi cael eu symud i'r ardal.

Gall cymdeithasau tai lofnodi'r Cyfamod hefyd – gallant wneud addewid gwirfoddol ysgrifenedig a chyhoeddedig fel busnes a sefydliad elusennol sydd am ddangos ei gefnogaeth bendant i gymuned y Lluoedd Arfog.

Mae cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog yn golygu annog gweithgareddau sy'n helpu cymuned y Lluoedd Arfog i integreiddio i fywyd lleol, a helpu teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau Awdurdod Lleol.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyfamod y Lluoedd Arfog,[3] ac mae rhestr o lofnodwyr ar gael ar wefan y Llywodraeth.[4]

## 4.2 Tai a Chyfamod y Lluoedd Arfog

Ar lefel leol, caiff Cyfamod y Lluoedd Arfog ei gefnogi gan gynllun gweithredu ac addewidion allweddol. Mae cynllun gweithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cynnig cyfle i nodi'r camau allweddol sydd eu hangen ar lefel leol i wella mynediad at opsiynau tai a chymorth i gyn-filwyr. Mae hyn yn sicrhau y caiff anghenion tai cyn-filwyr eu diwallu mewn ffordd gydgysylltiedig.

**Cyngor Dinas Caergrawnt: Cynllun Gweithredu'r Cyfamod**

Mae cynllun gweithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog Cyngor Dinas Caergrawnt yn cynnwys y camau canlynol mewn perthynas â thai:

1. **Gweithiwr Tai i Gyn-filwyr ar gyfer Swydd Gaergrawnt**

Bydd y Cyngor Sir yn cyflogi Gweithiwr Tai i Gyn-filwyr.

"Byddwn yn anelu at roi mwy o ffocws ar hyrwyddo'r manteision sydd ynghlwm wrth ein Polisi Gosodiadau, h.y. o amgylch yr hepgoriad cysylltiad lleol a'r flaenoriaeth ychwanegol a roddir i aelodau'r Lluoedd Arfog".

2. **Cynlluniau Tai Personol**

"O dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd, mae gennym ddyletswydd i lunio cynlluniau tai personol (PHP) ar gyfer cartrefi sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd. Dylai'r cynlluniau hyn ganolbwyntio ar anghenion tai a chymorth y cartref.

Byddwn yn adolygu'r wybodaeth sydd ar gael i Gynghorwyr Tai am y gwasanaethau cymorth a gynigir i aelodau/cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog ac yn diweddaru ein hadnoddau yn unol â hynny.

Yna, byddwn yn mynd ati i greu templed PHP wedi'i deilwra ar gyfer aelodau o'r Lluoedd Arfog a fydd, yn ogystal â gofyn y cwestiwn am anghenion cymorth, yn rhoi gwybodaeth am sut i gysylltu ag asiantaethau cymorth."

---

[3] Armed Forces Covenant (2022) Housing, Homelessness and the Armed Forces Covenant. Ar gael o: https://www.armedforcescovenant.gov.uk/learning/housing-homelessness-and-the-armed-forces-covenant/#/

[4] Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2022) Search for Businesses who Have Signed the Armed Forces Covenant. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/search-for-businesses-who-have-signed-the-armed-forces-covenant

**Cyngor Barnsley: Cynllun Gweithredu'r Cyfamod**

Mae Cynllun Gweithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog Cyngor Barnsley yn cynnwys blaenoriaeth gyffredinol i 'Wneud Cartref mewn Bywyd Sifil', sy'n cynnwys y camau canlynol:

- Adolygu'r tai sydd ar gael ar gyfer aelodau a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn Barnsley.
- Parhau i ddarparu cartrefi i gyn-filwyr yn Barnsley sy'n wynebu anawsterau wrth ddod yn rhan o fywyd sifil.
- Darparu cyllid yn uniongyrchol i liniaru digartrefedd ymhlith cyn-filwyr.

Gall Cymdeithasau Tai a darparwyr tai â chymorth sicrhau bod eu sefydliad yn un "Sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog" drwy ymrwymo i Gyfamod y Lluoedd Arfog.

**Riverside: Cyfamod Corfforaethol**

Caiff Cyfamod y Lluoedd Arfog ei gefnogi hefyd gan y Cyfamod Corfforaethol, sef addewid cyhoeddus gan fusnesau a sefydliadau eraill sydd am ddangos eu bod yn cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog.

Riverside oedd y Darparwr Tai Cymdeithasol Cofrestredig Sifilaidd cyntaf i lofnodi'r Cyfamod Corfforaethol yn 2014.

## 4.3 Bil y Lluoedd Arfog

Mae Deddf y Lluoedd Arfog, a gafodd Gydsyniad Brenhinol yn Senedd San Steffan ym mis Rhagfyr 2021, yn nodi Cyfamod y Lluoedd Arfog mewn deddfwriaeth am y tro cyntaf er mwyn helpu i atal aelodau a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog rhag bod dan anfantais wrth gael gafael ar wasanaethau hanfodol gan gynnwys gofal iechyd, addysg a thai.

**Beth mae'r Ddeddfwriaeth yn ei Ddweud?**

Mae Deddf y Lluoedd Arfog 2021 yn cyflwyno dyletswydd i roi sylw dyledus i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog fel a ganlyn:

- Rhwymedigaethau unigryw'r Lluoedd Arfog a'r aberthau a wneir ganddynt.
- Yr egwyddor ei bod yn ddymunol dileu anfanteision sy'n wynebu aelodau neu gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog.
- Yr egwyddor y gall darpariaeth arbennig ar gyfer aelodau o'r Lluoedd Arfog gael ei gyfiawnhau gan yr effeithiau y mae bod yn aelod neu'n gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog yn eu cael ar y bobl hynny.


Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

Bydd y ddyletswydd newydd yn gymwys i bersonau neu gyrff penodedig, gan gynnwys cynghorau, wrth arfer swyddogaethau penodol ym meysydd tai, addysg a gofal iechyd.

**Argymhellion**

**Awdurdodau Lleol**

→ Sicrhewch fod staff yn deall beth yw Cyfamod y Lluoedd Arfog.
→ Ewch ati i adolygu'r cynllun gweithredu sydd gennych ar gyfer Cyfamod y Lluoedd Arfog er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys camau gweithredu ac addewidion tai allweddol ar gyfer gwella mynediad at dai a chymorth i gyn-filwyr.

**Cymdeithasau Tai a Darparwyr Tai â Chymorth**

→ Sicrhewch fod staff yn deall beth yw Cyfamod y Lluoedd Arfog.
→ Llofnodwch y Cyfamod Corfforaethol.

## 5. Dull Gweithredu Strategol

**Beth mae'r Ddeddfwriaeth yn ei Ddweud?**
Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 ofyniad i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiad o ddigartrefedd a llunio strategaeth digartrefedd yn seiliedig ar ganlyniadau'r adolygiad.

Mae'r prif elfennau sydd eu hangen ar gyfer strategaethau digartrefedd yn seiliedig ar adolygu a chynllunio gweithgareddau er mwyn:

- Atal digartrefedd.
- Sicrhau llety i bobl sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd.
- Darparu cymorth.

Yn ôl y Canllawiau, mae'n bwysig nodi nifer y rhai sy'n gofyn am gymorth yn fynych a grwpiau hyglwyf gan gynnwys y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog.

Mae'n rhaid i'r Strategaeth Digartrefedd gynnwys darpariaeth ar gyfer y rhai y gall fod angen penodol am gymorth arnynt, gan gynnwys pobl sy'n gadael Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron.

Mae cyflwyno'r Grant Cymorth Tai yn cynnig cyfle i roi mecanwaith cynllunio cydlynol wedi'i resymoli ar waith ar gyfer y System Dai gyfan fel y mae'n berthnasol i atal digartrefedd a darparu'r cymorth i sicrhau y deuir o hyd i dai priodol ar gyfer pobl. Fel y cyfryw, mae Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai yn strategaeth unigol sy'n cynnwys y ddyletswydd statudol sydd ar yr Awdurdod Lleol i lunio strategaeth digartrefedd a gofynion cynllunio strategol y Grant Cymorth Tai.

### 5.1 Sut y Gallwn Ddatblygu Dull Strategol o Fynd i'r Afael â Digartrefedd sy'n Ystyried Cyn-filwyr?

Wrth gynnal unrhyw Adolygiadau o Ddigartrefedd ac asesiadau o anghenion yn y dyfodol, argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ystyried anghenion cyn-filwyr yn benodol – wrth ystyried unrhyw ddata sydd ar gael i ddeall natur a graddau digartrefedd ymhlith cyn-filwyr a'u teuluoedd, ond hefyd wrth ystyried eu hanghenion ehangach o ran tai a chymorth.

Wrth ddatblygu neu adolygu Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai, dylai Awdurdodau Lleol ystyried sut y gellid gweithio'n effeithiol i atal digartrefedd ymhlith cyn-filwyr, a sicrhau bod cymorth priodol ar gael.

Argymhellir hefyd y dylai aelodaeth unrhyw Fforymau/Cynghreiriau Digartrefedd Lleol gael ei hehangu i gynnwys sefydliadau lleol ac elusennau sy'n gweithio gyda chyn-filwyr; bydd hyn yn sicrhau ymateb gweithredol cydgysylltiedig, strategol a gwell wrth ddiwallu anghenion tai y grŵp hwn o gleientiaid. Mae hefyd yn bwysig ymgynghori â'r grwpiau hyn wrth ddatblygu Strategaeth newydd.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

Yn ddelfrydol, dylai Strategaethau Tai ystyried anghenion cyn-filwyr hefyd a sut y gellir diwallu eu hanghenion tai.

**De Swydd Efrog: Adolygiad o Wasanaethau**

Nododd Grŵp Cyfamod De Swydd Efrog y gallai cyn-filwyr fod yn cael eu tangynrychioli yn nata monitro gwasanaethau digartrefedd yn yr is-ranbarth – felly, comisiynwyd adolygiad ar draws Barnsley, Doncaster, Rotherham a Sheffield i sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd yn nodi ac yn ymateb i anghenion cyn-filwyr a'u teuluoedd yn briodol.

Cynhaliwyd adolygiad strategol o'r ffordd y mae timau digartrefedd Cynghorau De Swydd Efrog yn mynd ati i nodi ac yn ymateb i gyn-filwyr a'u teuluoedd ar ddechrau 2020. Roedd yr adolygiad yn cynnwys nodi arfer gorau, cymhwyso deddfwriaeth berthnasol a nodi argymhellion ar gyfer gwella a gweithio tuag at greu ffordd gyson ac ardderchog o ymateb i gyn-filwyr digartref a'u teuluoedd ledled De Swydd Efrog. Fel rhan o'r prosiect, mae'r timau digartrefedd a dyraniadau wedi derbyn hyfforddiant arbenigol ar ymwybyddiaeth o gyn-filwyr hefyd.

Bydd canfyddiadau'r adolygiad a'r argymhellion yn llywio Strategaethau Digartrefedd a Chysgu Allan yn y dyfodol.

**Cyngor Doncaster: Strategaeth Digartrefedd**

Mae Strategaeth Digartrefedd a Chysgu Allan Doncaster 2019 yn cynnwys y datganiad canlynol mewn perthynas â chyn-filwyr:

“Mae'r cymorth mae Doncaster yn ei roi i gyn-filwyr yn cynnwys dyraniad tai, blaenoriaeth ar restrau aros a chymorth tenantiaeth, ac mae ganddo stoc dai benodedig ychwanegol mewn partneriaeth â St Leger Homes a'r elusen Help for Homeless Veterans. Bydd Pecyn Rhanbarthol Ymwybyddiaeth o Gyn-filwyr yn sicrhau bod cymorth tai a chyngor cyson ar gael ledled Doncaster a Rhanbarth De Swydd Efrog.”

**Riverside: Strategaeth Cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog**

Mae Riverside yn Gymdeithas Dai sydd â Strategaeth ar wahân ar gyfer Cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog. Nod y Strategaeth yw rhoi darlun clir o'r gwasanaethau y mae Riverside yn eu darparu i gyn-filwyr a'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny, ochr yn ochr â'r rhai y maent yn bwriadu eu datblygu, gan nodi cynllun strategol clir ar gyfer 2016-21.

Mae'r Strategaeth wedi cyflawni'r canlynol:

- Gwella'r hyn a gynigir i gyn-filwyr yn fewnol/allanol.
- Datblygu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyn-filwyr.
- Ymgyrchu dros gyllid refeniw i gyn-filwyr.
- Codi ymwybyddiaeth o wasanaeth SPACES.
- Adeiladu sylfaen dystiolaeth drwy brosiect ymchwil a gwasanaethau Riverside.

Mae'r Strategaeth ar gael yma.[5]

**Argymhellion**

→ Dylai Strategaethau Rhaglenni Cymorth Tai roi ystyriaeth briodol i anghenion cyn-filwyr er mwyn deall natur a graddau digartrefedd ymhlith cyn-filwyr a'u teuluoedd a'u hanghenion tai a chymorth ehangach.

→ Ewch ati i adolygu aelodaeth Fforymau/Cynghreiriau Digartrefedd lleol er mwyn cynnwys sefydliadau ac elusennau lleol i gyn-filwyr.

→ Cyfeiriwch at Gyfamod y Lluoedd Arfog wrth adolygu a datblygu Strategaethau newydd ar gyfer Rhaglenni Cymorth Tai.

→ Sicrhewch fod Strategaethau Tai yn ystyried anghenion tai cyn-filwyr lle nodir angen lleol.

# 6. Gwybodaeth a Chyngor Pwrpasol

## 6.1 Gwybodaeth a Chyngor

Mae Swyddfa Cyngor Tai'r Gwasanaethau ar y Cyd yn un o dimau'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n rhoi cyngor arbenigol i aelodau o'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd ar eu hopsiynau tai sifilaidd. Mae'r Swyddfa hefyd yn rhoi cyngor ar sefydliadau a all helpu cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog i ddod o hyd i dŷ. Ymhlith y pynciau y rhoddir cyngor arnynt mae prynu eiddo, opsiynau rhentu preifat a thai cymdeithasol.

[5] Ar gael o: https://www.riverside.org.uk/wp-content/uploads/2021/08/5-Veterans-Strategy-FINAL.pdf

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

**Beth mae'r Ddeddfwriaeth yn ei Ddweud?**
O dan adran 60 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i gael help gyda thai.

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Tai Lleol, yn benodol drwy weithio gydag awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol ac unigolion eraill, sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion grwpiau sy'n wynebu risg benodol o ddigartrefedd, gan gynnwys pobl sy'n gadael Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar dai yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion grwpiau hyglwyf gan gynnwys pobl sy'n gadael Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron.

## 6.2 Pa Gyngor a Gwybodaeth y Dylech Fod yn eu Rhoi?

Gall darparu amrywiaeth o gyngor a gwybodaeth ddefnyddiol sicrhau bod aelodau a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog ac aelodau o'u teulu yn gallu cael gafael ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn perthynas â'u hopsiynau tai. Gall hyn fod ar ffurf taflenni cyngor neu ffeithlenni pwrpasol, neu wybodaeth gynhwysfawr ar wefan y Cyngor.

**Cyngor Barnsley: Gwefan**

Mae gan Gyngor Barnsley ddolen glir o'i dudalennau gwe Opsiynau Tai i wybodaeth ar gyfer cyn-filwyr. Mae'r dudalen we i gyn-filwyr yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr o dan amrywiaeth o themâu gan gynnwys 'Making a Home in Civilian Society', gyda gwybodaeth ychwanegol am ddod o hyd i gartref.

Dylai'r cyngor a roddir hefyd gynnwys cyfeiriadau at elusennau arbenigol cenedlaethol a all roi cymorth ychwanegol. Mae amrywiaeth eang o elusennau'r Lluoedd Arfog yn gweithredu ledled y DU. Sefydlwyd Y Porth Cyn-filwyr[6] i fod yn bwynt cyswllt cyntaf i gyn-filwyr sy'n ceisio cymorth. Mae'r Porth, sy'n cynnig cymorth gan gynghorwyr tai arbenigol, ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Mae hefyd yn bwysig cysylltu ag unrhyw elusennau'r Lluoedd Arfog sy'n gweithredu yn eich ardal leol er mwyn i chi fod yn gyfarwydd â'r gwasanaethau y gallant eu darparu a sefydlu cydberthnasau gwaith cadarnhaol gyda chysylltiadau a llwybrau atgyfeirio clir.

**Argymhellion**

[6] Ar gael o: https://www.veteransgateway.org.uk

- → Sicrhewch fod gwybodaeth fanwl a phwrpasol ar gael i aelodau o'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr am sefydliadau cymorth a'r amrywiaeth o opsiynau tai sydd ar gael ar wefannau Awdurdodau Lleol.
- → Sicrhewch fod y wefan yn cynnwys dolen i'r Porth Cyn-filwyr.
- → Sicrhewch fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r Porth Cyn-filwyr.
- → Ewch ati i weithio'n agos gydag elusennau lleol y Lluoedd Arfog er mwyn sefydlu llwybrau atgyfeirio clir.

## 7. Atal Digartrefedd Ymhlith Cyn-filwyr

**Beth mae'r Ddeddfwriaeth yn ei Ddweud?**
Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai i weithio gyda phobl sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod er mwyn helpu i atal hynny rhag digwydd.

Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai helpu pobl sy'n ddigartref i ddod o hyd i lety.

### 7.1 Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog[7] mewn ymateb i un o brif bryderon aelodau ynghylch gadael y Lluoedd Arfog, sef dod o hyd i lety addas a sut i gael gafael ar gymorth.
Mae'r Llwybr yn rhoi eglurder a chymorth i aelodau o'r Lluoedd Arfog ynghylch eu proses ryddhau, opsiynau tai a'r ffynonellau cymorth sydd ar gael o ran tai.

### 7.2 Atal Digartrefedd

Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol er mwyn atal digartrefedd. Er nad yw'r ddyletswydd statudol i atal digartrefedd yn dod i rym nes 56 diwrnod cyn i rywun fynd yn ddigartref, dylai Awdurdodau wneud trefniadau i sicrhau bod gweithgarwch atal yn digwydd cyn gynted â phosibl.

**Tystysgrif Diwedd Hawl**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi Tystysgrif Diwedd Hawl i Feddiannu Llety'r Lluoedd Arfog 6 mis cyn i unigolion gael eu rhyddhau. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried hyn fel prawf bod unigolyn mewn perygl o fod yn ddigartref ac ni ddylent fynnu bod gorchymyn ildio meddiant yn cael ei roi.

Mae'r Cod Canllawiau yn nodi y dylai Awdurdodau fanteisio'n llawn ar y cyfnod rhybudd o chwe mis ar gyfer rhyddhau unigolion er mwyn sicrhau bod aelodau o'r Lluoedd Arfog yn cael cyngor manwl ac amserol ar yr opsiynau tai sydd ar gael iddynt

---

[7] Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/llwybr-tai-cenedlaethol-ar-gyfer-cyn-aelodaur-lluoedd-arfog.pdf


Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

pan fyddant yn gadael y Lluoedd Arfog ac er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgymryd â gwaith atal.

Dylai'r cyngor a'r gwaith atal gynnwys gweithio'n agos gyda sefydliadau ac elusennau'r Lluoedd Arfog er mwyn sicrhau y gellir ystyried pob opsiwn sydd ar gael a chysylltu'r opsiynau hynny â chymorth pellach.

Mae atal digartrefedd yn hanfodol ac ni ddylai Awdurdodau Lleol oedi cyn helpu aelodau o'r Lluoedd Arfog am eu bod yn cael cyfnod rhybudd hwy o bosibl na chwsmeriaid eraill.

**Grant Cyfleusterau i'r Anabl**

Mae grantiau cyfleusterau i'r anabl, sy'n grantiau gorfodol, ar gael gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr a'r Weithrediaeth Dai yng Ngogledd Iwerddon, yn amodol ar brawf modd, ar gyfer gwneud addasiadau hanfodol sy'n rhoi mwy o ryddid i bobl anabl fynd i mewn i'w cartrefi a symud o'u hamgylch, ac i roi mynediad at gyfleusterau hanfodol yn y cartref.

Mae'r prawf modd ar gyfer y grantiau wedi cael ei ddiwygio fel bod taliadau Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a thaliadau'r Cynllun Pensiwn Rhyfel ar gyfer yr aelodau o'r Lluoedd Arfog â'r anableddau mwyaf difrifol yn cael eu diystyru at ddibenion asesu cymhwystra.

**Cynllun Blaendal y Weinyddiaeth Amddiffyn**

Mae Cynllun Blaendal Tenantiaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn[8] yn galluogi aelodau o'r Lluoedd Arfog i wneud cais am fenthyciad blaendal cyflog i'w helpu i roi blaendal ar gyfer eiddo rhent.

**Opsiynau Tai Pwrpasol**

Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi datblygu opsiynau tai pwrpasol yn benodol i ddiwallu anghenion cyn-filwyr a'u teuluoedd. Gallai hyn gynnwys penodi Swyddog Tai arbenigol ar gyfer y Lluoedd Arfog.

**Cyngor Dinas Newcastle: Cymorth Tenantiaeth a Blaendal Rhent**

Rhoddwyd grant i Gyngor Dinas Newcastle, drwy Awdurdod Cyfun North of Tyne, o gyllid a roddwyd gan y Llywodraeth ganolog fel rhan o Gronfa Cefnogi Cyn-filwyr Digartref. Gyda Thîm Rhentu Preifat sefydledig a oedd eisoes yn cynnig cymorth i ddod o hyd i denantiaethau yn y sector rhentu preifat a'u cynnal, sicrhaodd y cyllid grant fod y tîm yn gallu rhoi cymorth wedi'i dargedu i gyn-filwyr gael gafael ar denantiaethau a'u

[8] Ar gael o: Help to secure a rental home: the MOD Tenancy Deposit Loan Scheme - GOV.UK (www.gov.uk)

cadw drwy helpu gyda blaendal a chostau sefydlu cartref – rhywbeth nad oedd yn bosibl yn flaenorol. Caiff cyn-filwyr eu hatgyfeirio drwy Wasanaeth Allgymorth y Lluoedd Arfog a Gwasanaethau Digartrefedd y Cyngor. Gan adeiladu ar gydberthnasau sy'n bodoli eisoes â thimau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chyn-filwyr a'u teuluoedd, mae swyddog arweiniol ar gyfer y tîm rhentu preifat yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt. Gall yr unigolyn hwnnw fynd ati i ddeall natur y grŵp cleientiaid a llywio'r gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion y grŵp yn y ffordd orau bosibl.

**Cynllun Blaendal Rhent:** Mae'r cynllun yn cynnig blaendal rhithwir yn lle bond arian parod i oresgyn y baich ariannol cychwynnol, ond mae hefyd yn helpu i ddod o hyd i gartrefi fforddiadwy a reolir yn dda. Rhoddir gwasanaeth sefydlu tenantiaeth i denantiaid sy'n cynnwys help gyda budd-daliadau, mynediad at ddodrefn, cyngor ar hawliau tenantiaid a threfnu cyfleustodau. Bydd tenantiaid hefyd yn cael cymorth parhaus yn ystod y cyfnod cyfan i gynnal y denantiaeth.

**Cronfa Cymorth Tenantiaeth:** Mae cronfa cymorth tenantiaeth yn cwmpasu unrhyw gostau a all fod yn rhwystr i gyn-filwyr (neu deuluoedd cyn-filwyr) wrth geisio sicrhau llety priodol. Mae gan y gronfa hon gwmpas eang i gydnabod anghenion gwahanol pob cleient ond gall gynnwys taliadau rhent ymlaen llaw, symiau ychwanegol o rent yn y byrdymor, yswiriant gwarantwr ac ati.

**Cymorth Cynnal Tenantiaeth:** Mae'r tîm yn gweithio gyda landlordiaid a thenantiaid i gynnal tenantiaethau presennol. Y nod yw sicrhau bod y ddau barti yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau a gall helpu tenantiaid i fodloni gofynion eu tenantiaeth a chyfathrebu a negodi â'u landlord.


Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

**Cyngor Rotherham: Prosiect Grantiau i Gyn-filwyr Digartref**

Gall tîm tai Cyngor Rotherham ddefnyddio grant penodedig i roi cymorth uniongyrchol i gyn-filwyr ddod o hyd i lety a chymorth priodol os oes angen. Cronfa bersonol yw'r grant a all gynnwys bond a blaendal rhent i sicrhau llety rhentu preifat, blaendal rhent ar gyfer tenantiaeth cymdeithas dai, ac unrhyw gostau sefydlu cysylltiedig ar gyfer cartref newydd, e.e. carpedi, dodrefn, dillad gwely a chostau eraill sy'n ymwneud â'r cartref. Gellir ystyried tocynnau bysiau neu gymorth ariannol eraill sydd ei angen i ddod o hyd i waith neu hyfforddiant hefyd, fel dillad.

**Gwasanaeth Allgymorth y Lluoedd Arfog**

Mae Gwasanaeth Allgymorth y Lluoedd Arfog, sef partneriaeth ranbarthol rhwng Awdurdodau Lleol a chymdeithasau tai yn Ne-ddwyrain Lloegr, yn darparu gwasanaeth ymroddedig i Gymuned y Lluoedd Arfog.

Mae aelodau o'r tîm allgymorth yn gweithio mewn swyddfeydd Awdurdod Lleol neu gymdeithas dai. Cânt eu hyfforddi i helpu aelodau o'r Lluoedd Arfog i ddod o hyd i gartref ac ymsefydlu yn y gymuned. Gallant hefyd roi cyngor a chymorth cyffredinol gydag unrhyw faterion neu broblemau eraill sy'n ymwneud â thai fel symud cartref, digartrefedd ac ôl-ddyledion rhent.

**Argymhellion**

- → Ewch ati i ymyrryd yn gynnar ac ymgymryd â gwaith atal drwy weithio gyda chyn-filwyr o'r adeg y rhoddir 'Tystysgrif Diwedd Hawl' er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i atal digartrefedd. Sicrhewch fod gweithdrefnau yn adlewyrchu hyn.
- → Rhowch ystyriaeth i ddatblygu opsiynau tai pwrpasol lle y nodir angen.

## 8. Digartrefedd

Er y dylai unrhyw wasanaeth Opsiynau Tai ganolbwyntio ar atal digartrefedd, bydd adegau pan na fydd camau atal wedi gweithio neu pan fydd cyn-filwr neu aelod o'r teulu ond yn cysylltu â'r gwasanaeth ar ôl profi digartrefedd.

### 8.1 Cynlluniau Tai Personol

O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2015, os bydd ymgeisydd yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod, mae'n rhaid cynnal asesiad o'i anghenion tai a chymorth. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol gymryd camau rhesymol er mwyn helpu i atal digartrefedd neu ei liniaru.

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y byddai'n arfer gorau i Awdurdodau Lleol fabwysiadu system o ddefnyddio Cynllun Tai Personol wrth helpu ymgeisydd i gyflawni camau rhesymol

Gall datblygu cynllun tai personol pwrpasol ar gyfer cyn-filwyr sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth allweddol sydd eu hangen arnynt, gan gynnwys manylion elusennau lleol a chenedlaethol ar gyfer y Lluoedd Arfog.

Bydd llawer o elusennau lleol a chenedlaethol i gyn-filwyr yn barod i weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol i helpu cwsmeriaid i gyflawni'r camau yn eu cynllun tai personol.

**Cyngor Dinas Caergrawnt: Cynllun Tai Personol**

Mae Cyngor Dinas Caergrawnt wedi datblygu cyfres o gynlluniau tai personol pwrpasol, sy'n cynnwys cynllun tai personol arbenigol i gyn-filwyr. Mae'r cynllun yn cynnwys manylion amrywiaeth eang o sefydliadau arbenigol lleol a chenedlaethol sy'n cefnogi cyn-filwyr.

## 8.2 Pan fo Cyn-filwr yn Ddigartref

Mewn sefyllfa lle na fu'n bosibl atal digartrefedd, mae'n rhaid i'r Awdurdod Tai Lleol wneud ymholiadau pellach i ddeall a yw anghenion y cleient yn flaenoriaeth er mwyn deall a oes dyletswydd i ddarparu llety dros dro. Gall fod yn ofynnol i'r Awdurdod wneud ymholiadau pellach hefyd er mwyn nodi a yw'r unigolyn yn fwriadol ddigartref ac a oes ganddo gysylltiad lleol â'r ardal, er mwyn penderfynu a yw dyletswydd digartrefedd lawn yn bodoli.

**Beth mae'r Ddeddfwriaeth yn ei Ddweud?**

**Angen Blaenoriaethol:** O dan adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, caiff pobl sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron ac sydd wedi bod yn ddigartref ers gadael y Lluoedd hynny, eu cydnabod yn bersonau digartref ag angen blaenoriaethol.

Gall rhywun fod yn berson digartref ag angen blaenoriaethol hefyd os yw'n hyglwyf am ryw reswm arbennig.

Gall cyn-filwyr ei chael hi'n anodd addasu i fywyd sifil ar ôl cael eu rhyddhau hefyd. Gall hyn gynnwys trawma ar gam hwyrach, anawsterau iechyd meddwl, problemau sy'n gysylltiedig ag anaf corfforol, a chamddefnyddio sylweddau. Gall yr anawsterau hyn arwain at golli eu cartref neu dor-perthynas.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

Wrth asesu a yw cyn-filwr yn berson ag angen blaenoriaethol, mae'n bwysig ystyried a yw'n hyglwyf am ryw reswm arbennig arall, a allai gynnwys gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Wrth asesu hyn, efallai y byddwch am ystyried y canlynol:

- Y cyfnod a dreuliwyd yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, er y gallai bregusrwydd gael ei weld o ganlyniad i gyfnod byr o wasanaeth.
- Y math o wasanaeth yr oedd yr ymgeisydd yn ymwneud ag ef (mae'n bosibl y gallai'r rhai ar wasanaeth gweithredol ei chael hi'n anos ymdopi â bywyd sifil).
- A yw'r ymgeisydd wedi treulio unrhyw amser mewn ysbyty milwrol, a allai fod yn arwydd o broblemau iechyd difrifol neu straen wedi trawma.
- A yw cynghorwyr meddygol a lles Lluoedd EM wedi barnu bod unigolyn yn arbennig o hyglwyf ac wedi cyhoeddi Ffurflen Rhyddhau Hanes Meddygol sy'n rhoi crynodeb o'r amgylchiadau a arweiniodd at hynny.
- Y cyfnod ers i'r ymgeisydd adael y Lluoedd Arfog ac a yw wedi gallu cael gafael ar lety a'i gynnal yn ystod y cyfnod hwnnw.
- A oes gan yr ymgeisydd unrhyw rwydweithiau cymorth, gan gynnwys teulu neu ffrindiau.

**Ymgynghoriad ar Fesurau Digartrefedd Dros Dro ar ôl y Pandemig**

Ar ddechrau'r pandemig, rhoddwyd ymateb brys i ddigartrefedd ar waith, a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru nodiadau cyfarwyddyd statudol a oedd yn ehangu'r diffiniad o fod yn hyglwyf i gynnwys COVID-19.

Ystyrir bod unrhyw un sy'n cysgu ar y stryd neu sydd mewn perygl o gysgu ar y stryd yn ystod y pandemig yn llai abl nag unigolyn arferol o ofalu amdano ef ei hun. Ystyrir hefyd y byddai'n dioddef mwy o niwed nag unigolyn digartref arferol ac, fel y cyfryw, byddai'n cael ei ystyried yn unigolyn hyglwyf ac yn unigolyn sydd ag angen blaenoriaethol.

Yn ystod 2019 a 2020, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o angen blaenoriaethol a gynhaliwyd cyn y pandemig.

Ym mis Mehefin 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i gasglu safbwyntiau ar ehangu'r diffiniad o angen blaenoriaethol i gynnwys unigolyn sy'n cysgu allan.

**Beth mae'r Ddeddfwriaeth yn ei Ddweud?**

**Yn Fwriadol Ddigartref:** Gellid ystyried bod unigolyn yn fwriadol ddigartref os yw wedi gwneud rhywbeth yn fwriadol neu wedi methu â gwneud rhywbeth sydd wedi golygu ei fod wedi colli ei lety.

Lle mae'n ofynnol i aelodau o'r Lluoedd Arfog adael llety'r Lluoedd Arfog am eu bod wedi dewis rhoi rhybudd i adael y Lluoedd Arfog a'u bod, wrth wneud hynny, yn cydymffurfio â'u hymrwymiad cytundebol, ni ddylid ystyried eu bod yn fwriadol ddigartref.

**Beth mae'r Ddeddfwriaeth yn ei Ddweud?**

**Cysylltiad Lleol:** Mae aelodau o'r Lluoedd Arfog ac unigolion eraill sy'n byw gyda nhw fel arfer fel rhan o'u cartref, yn sefydlu cysylltiad lleol ag ardal am eu bod yn gwasanaethu yno, neu am eu bod wedi gwasanaethu yno yn ystod eu hamser yn y Lluoedd Arfog.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried yr amser y mae ymgeisydd wedi'i dreulio yn eu hardal yn y Lluoedd Arfog wrth asesu cysylltiad lleol yr ymgeisydd â'r ardal honno mewn perthynas â'i gais am gymorth digartrefedd neu dai cymdeithasol.

## 8.3 Beth y Gallwn ei Wneud i Wella ein Dull Gweithredu?

Drwy lunio crynodeb un dudalen o'r holl feysydd allweddol y dylai staff opsiynau tai eu hystyried wrth weithio gyda chyn-filwr sy'n ddigartref yn sicrhau, byddai pob aelod o'r staff yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf.

Gallai'r ffurflen asesu digartrefedd gael ei hategu gan restr o gwestiynau ategol â meysydd allweddol i'w hystyried wrth asesu hyglwyfedd mewn perthynas â gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog a nodi angen blaenoriaethol.

**Argymhellion**

- → Lluniwch grynodeb un dudalen am ddigartrefedd a chyn-filwyr i'w ddefnyddio gan staff.
- → Lluniwch restr o gwestiynau ategol i gyd-fynd â'r ffurflen asesu digartrefedd ar gyfer asesu angen blaenoriaethol a briodolir i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

## 9. Tai Cymdeithasol

### 9.1 Polisïau Dyraniadau

Efallai y bydd aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i lety addas am wneud cais am dai cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw profiad llawer o aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol bob amser yn un esmwyth.

O dan ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol feddu ar gynllun dyrannu sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol. Mae'n rhaid i'r cynllun gydymffurfio â'r cod canllawiau a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

### 9.2 Beth mae'r Gyfraith yn ei ddweud

**Blaenoriaeth Ychwanegol – Beth mae'r Ddeddfwriaeth yn ei Ddweud?**

Mae Adran 167(2) o Ddeddf 1996 yn rhoi'r pŵer i Awdurdodau Lleol lunio eu cynllun dyrannu er mwyn rhoi blaenoriaeth ychwanegol i ddisgrifiad penodol o bobl sy'n disgyn i'r categorïau blaenoriaeth resymol ac sydd ag anghenion tai brys. Dylai Awdurdod Lleol ystyried roi blaenoriaeth ychwanegol i'r canlynol:

- Y rhai y mae angen iddynt symud i lety a addaswyd yn briodol oherwydd anaf difrifol, cyflwr meddygol neu anabledd y maen nhw, neu aelod o'u cartref, wedi'i gael o ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.
- Pobl sydd angen llety am eu bod wedi gadael y Lluoedd Arfog ac wedi colli llety milwrol.

Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod y rhai y mae angen iddynt symud i lety a addaswyd yn briodol oherwydd anaf difrifol, cyflwr meddygol neu nam y maen nhw, neu aelod o'u cartref, wedi'i gael o ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn cael blaenoriaeth ychwanegol, ochr yn ochr â'r rhai y mae angen llety arnynt am eu bod wedi gadael y Lluoedd Arfog.

**Cysylltiad Lleol – Beth mae'r Ddeddfwriaeth yn ei Ddweud?**

Mae'r Ddeddf yn galluogi Awdurdodau Lleol i nodi blaenoriaethau mewn perthynas ag ymgeiswyr sy'n disgyn i'r categorïau blaenoriaeth resymol drwy ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys cysylltiad lleol.

“At ddibenion Deddf 2014, mae aelodau o'r Lluoedd Arfog, ac unrhyw bersonau eraill sy'n byw gyda nhw fel arfer fel rhan o'u cartref, yn sefydlu cysylltiad lleol ag ardal am eu bod yn gwasanaethu yno, neu am eu bod wedi gwasanaethu yno, yn ystod eu hamser yn y Lluoedd Arfog.”

Mae'r Cod Canllawiau yn mynd ymlaen i ddweud y byddai'n arfer da i dderbyn ceisiadau gan y rhai sy'n byw o dan drefniadau sefydliadol lle mae ganddynt gysylltiad â'r ardal a lle nad yw eu dyddiad rhyddhau yn rhy bell i ffwrdd o ddyddiad y cais, gan gynnwys pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog.

Mae newidiadau i ddeddfwriaeth dyraniadau yn caniatáu i aelodau o'r Lluoedd Arfog sefydlu cysylltiad lleol â'r ardal maent yn gwasanaethu ynddi, neu maent wedi gwasanaethu ynddi, ar yr un sail â sifiliaid sy'n byw yn yr ardal.

## 9.3 Beth y Gallwch Ni ei Wneud?

Y peth cyntaf y dylech chi, fel Awdurdod Lleol, ei wneud yw sicrhau bod eich Polisi Dyraniadau yn cydymffurfio â'r gyfraith mewn perthynas â chyn-filwyr, yn enwedig mewn perthynas â blaenoriaeth ychwanegol a chysylltiad lleol.

Gall aelodau o'r Lluoedd Arfog y gallant fod wedi symud o amgylch y wlad sawl gwaith o ganlyniad i'w gwasanaeth fod yn ansicr ar yr adeg y cânt eu rhyddhau ble mae'r lle mwyaf addas iddynt ymsefydlu i fywyd sifil.

Mewn sefyllfaoedd lle y caiff cyn-filwr ei ryddhau'n annisgwyl o gynnar oherwydd anaf neu amgylchiadau eraill neu lle mae aelod o'r teulu wedi cael profedigaeth, efallai na fyddant mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau ynghylch ble yr hoffent fyw yn yr hirdymor. Gellir cymhwyso'r polisi mewn ffordd fwy hyblyg lle mae'r eithriadau cysylltiad lleol hefyd yn gymwys i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi treulio amser yn gwasanaethu yn ardal yr Awdurdod Lleol ar ryw adeg yn ystod eu gyrfa yn y Lluoedd Arfog. Byddai hyn yn rhoi cynnig gwell i gyn-filwyr a'u teuluoedd.

Gallech hefyd ehangu eich polisi i sicrhau bod gŵr/gwraig neu bartner sifil sydd wedi colli eu partner o ganlyniad i'w wasanaeth yn gallu sefydlu cysylltiad lleol hefyd yn yr un ffordd.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

Byddai dulliau gweithredu arfer gorau hefyd yn eithrio cyn-wŷr/cyn-wragedd neu gyn-bartneriaid aelodau o'r Lluoedd Arfog y mae angen iddynt symud allan o lety'r Weinyddiaeth Amddiffyn rhag unrhyw ofynion o ran cysylltiad lleol i gymhwyso ar gyfer cartref cymdeithasol.

Mae enghreifftiau o ffyrdd y gall Awdurdodau a'u partneriaid sicrhau bod aelodau o'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd yn cael blaenoriaeth briodol yn cynnwys:

- Defnyddio'r hyblygrwydd yn y ddeddfwriaeth ddyrannu i nodi blaenoriaethau lleol ochr yn ochr â'r categorïau blaenoriaeth resymol statudol er mwyn rhoi blaenoriaeth, er enghraifft, i'r rhai sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog yn ddiweddar neu sy'n agos at adael.
- Defnyddio'r pŵer i nodi blaenoriaethau rhwng ymgeiswyr yn y categorïau blaenoriaeth resymol fel bod ymgeiswyr sydd angen tai ac sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn cael mwy o flaenoriaeth na'r rhai nad ydynt wedi gwasanaethu mewn perthynas â thai cymdeithasol.
- Os ystyrir adnoddau ariannol ymgeisydd wrth nodi blaenoriaethau rhwng cartrefi â lefel debyg o angen, diystyru unrhyw gyfandaliad a dderbynnir gan aelod o'r Lluoedd Arfog fel iawndal ar gyfer anaf neu anabledd a gafwyd ar wasanaeth gweithredol.
- Ehangu'r eithriad rhag cysylltiad lleol i bob cyn-filwr, nid dim ond aelodau sy'n gwasanaethu.
- Ymestyn yr eithriad rhag cysylltiad lleol i wŷr/gwragedd/partneriaid sifil/partneriaid aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi cael ysgariad/sydd wedi gwahanu oddi wrthynt.
- Mabwysiadu ffordd fwy hyblyg o ymdrin â chysylltiad lleol er mwyn cydnabod y ffaith y gall pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog fyw mewn nifer o ardaloedd cyn y gallant wneud penderfyniad ynghylch ble maent eisiau byw yn y tymor hwy.

**Cyngor Blaenau Gwent: Blaenoriaeth Ychwanegol**

Mae polisi dyraniadau Blaenau Gwent yn gosod ymgeiswyr o'r Lluoedd Arfog y mae angen iddynt adael y Lluoedd Arfog a llety milwrol, ynghyd â gwŷr/gwragedd neu bartneriaid sifil aelodau o'r lluoedd rheolaidd sydd wedi cael profedigaeth ac y mae angen iddynt adael llety'r Lluoedd Arfog, yn y band uchaf.

**Cyngor Caerffili: Blaenoriaeth Ychwanegol**

Mae Cyngor Caerffili wedi mabwysiadu dull mwy hyblyg yn ei bolisi dyrannu ac wedi ehangu'r ddarpariaeth blaenoriaeth ychwanegol i'r rhai sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gyda darpariaeth i ehangu hyn ymhellach mewn amgylchiadau eithriadol.

**Cyngor Dinas Sheffield: Blaenoriaeth Ychwanegol**

Mae polisi dyraniadau tai Sheffield yn rhoi blaenoriaeth ychwanegol i gyn-filwyr ac aelodau o'r Lluoedd Arfog drwy ôl-ddyddio'r dyddiad cofrestru i'r dyddiad y gwnaeth yr ymgeisydd neu ei ŵr/gwraig/partner sifil ddechrau gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

**Cyngor Metropolitanaidd Doncaster: Hyd y Gwasanaeth**

Mae Polisi Dyrannu Doncaster yn gosod cyn-filwyr sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog yn ystod y 5 mlynedd diwethaf yn y band uchaf ac yn ôl-ddyddio'r dyddiad cofrestru yn ôl nifer y blynyddoedd o wasanaeth – er enghraifft, byddai cyn-filwr â 10 mlynedd o wasanaeth yn cael y flaenoriaeth gyfatebol o fod ar y Gofrestr Dai am 10 mlynedd.

**Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer: Blaenoriaeth Ychwanegol**

Mae polisi dyrannu Gorllewin Swydd Gaer a Chaer yn gosod pob aelod o'r Lluoedd Arfog sydd angen tai ym Mand B o'i bolisi.

Caiff y rhai sydd angen tai ac sydd ag anaf difrifol, cyflwr meddygol neu anabledd a gafwyd o ganlyniad i'w gwasanaeth eu gosod ym Mand A, sef y flaenoriaeth uchaf.

**Hammersmith a Fulham: Cyfraniad Cymunedol**

Mae polisi dyrannu'r Cyngor yn cynnwys elfen cyfraniad cymunedol, lle y dylai'r rhai sy'n gwneud cyfraniad i'r gymuned gael mwy o flaenoriaeth o ran llety a ddyrennir gan y Cyngor. Caiff y rhai sy'n gymwys ar gyfer cyfraniad cymunedol ac sydd â blaenoriaeth resymol eu gosod ym Mand 2.

Bydd ymgeiswyr sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain ac a fu'n byw yn Hammersmith a Fulham am o leiaf 6 mis yn union cyn iddynt ddechrau gwasanaethu yn gymwys i gael dyfarniad cyfraniad cymunedol yn awtomatig, ac eithrio'r rhai sydd wedi cael eu rhyddhau mewn gwarth. Yn eu plith mae pobl sydd wedi gwasanaethu yn y Llynges Frenhinol, y Llu Awyr Brenhinol a'r Fyddin Brydeinig.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

**Cyngor Croydon: Dull Hyblyg**

Mae polisi Dyraniadau Tai Cyngor Croydon yn mynd gam ymhellach na'r canllawiau statudol drwy nodi y gellir ystyried ceisiadau gan gyn-filwyr 5 mlynedd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau lle mae rhesymau cyfiawn dros wneud hynny, gan ddiystyru cyfandaliadau a dderbyniwyd fel iawndal ar gyfer anaf neu anabledd a gafwyd yn ystod cyfnod o wasanaeth wrth gynnal asesiadau fforddiadwyedd, ar gyfer cymhwystra i ymuno â'r Gofrestr Dai a nodi swyddog enwebedig i ddelio ag ymholiadau gan gyn-filwyr ac aelodau o'r Lluoedd Arfog.

## 9.4 Dod o Hyd i Dai Cymdeithasol

Gall Awdurdodau Lleol a chymdeithasau tai ystyried neilltuo cyfran o eiddo ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog o dan bolisi gosodiadau lleol.

**Cynllun Atgyfeirio'r Weinyddiaeth Amddiffyn:** Mae Cynllun Atgyfeirio'r Weinyddiaeth Amddiffyn, a gydgysylltir gan y Swyddfa Cyngor Tai'r Gwasanaethau ar y Cyd, yn helpu rhai unigolion sydd wedi ymadael â'r Lluoedd Arfog i gael llety drwy gymdeithasau tai.

Mae rhai cymdeithasau tai yn gofyn i'r Swyddfa enwebu unigolion i fod yn denantiaid ar gyfer eiddo gwag. Mae bod yn rhan o Gynllun Atgyfeirio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnig llwybr ychwanegol ar gyfer dod o hyd i dai.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cydnabod bod rhai unigolion sy'n ymadael â'r Lluoedd Arfog yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i dai cymdeithasol fforddiadwy.  Drwy'r cynllun hwn, mae'r cymdeithasau tai dan sylw yn gallu helpu pobl na fyddent, fel arall, yn cael eu blaenoriaethu'n ddigon uchel o bosibl i fod â siawns realistig o gael cartref sy'n eiddo i Awdurdod Lleol:

- Y rhai sy'n ei chael hi'n anodd profi cysylltiad lleol.
- Cyplau heb blant.
- Unigolion sengl.

Mae llety wedi'i addasu a llety gwarchod (â chymorth a heb gymorth) ar gael hefyd drwy'r cynllun.

Caiff ymgeiswyr eu hatgoffa nad oes gan y Swyddfa ei hun unrhyw stoc dai ac nad yw'r cynllun yn gwarantu y bydd modd dod o hyd i eiddo drwy gymdeithas dai. Caiff unigolion eu cynghori i wneud cais i'r Awdurdod Lleol a chymdeithasau tai yn uniongyrchol, yn ogystal â gwneud cais i'r cynllun hwn.

**Cynllun Enwebu Cyn-filwyr:** Ffordd arall y gall darparwyr tai cymdeithasol sicrhau bod mwy o dai cymdeithasol ar gael i gyn-filwyr a'u teuluoedd yw ystyried partneru â'r Cynllun Enwebu Cyn-filwyr.

Nod y Cynllun Enwebu Cyn-filwyr, sy'n brosiect a redir gan Stoll ac a ariannwyd yn wreiddiol gan y Lleng Frenhinol Brydeinig, yw dod o hyd i gartrefi sefydlog a fforddiadwy i gyn-filwyr. Mae Stoll yn cydweithio â thros 90 o gymdeithasau tai ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr i'w paru â chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd angen cartref. Mae'r cynllun yn gweithio'n dda i gyn-filwyr sengl neu gyplau heb blant ag anghenion cymorth isel sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i gartref fforddiadwy. Unwaith y caiff ymgeisydd ei atgyfeirio i'r Cynllun, bydd Stoll yn ei baru â darparwr tai cyfagos ac yn sicrhau llety iddo am gyfraddau rhent fforddiadwy.

**Cymdeithas Dai Riverside**

Mae Riverside yn ymrwymedig i ddyrannu 4% o'i stoc tai cymdeithasol i gyn-filwyr a'u teuluoedd, yn unol â'r ffaith bod 4% o boblogaeth y DU wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog rheolaidd.

**Ymddiriedolaeth Tai Haig**

Mae Haig Housing yn ddarparwr tai ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn y DU. Erbyn hyn, mae'r elusen yn berchen ar fwy na 1,500 o eiddo mewn 50 o leoliadau.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn helpu cyn-filwyr cymwys sydd angen tai, p'un a ydynt yn pontio i fywyd sifil neu angen help llaw.

Mae'r eiddo, sydd wedi'i leoli ledled y DU, yn gymysgedd o dai i deuluoedd a thai llai o faint, fflatiau a maisonettes ar ystadau bach a reolir yn dda.

Mae eiddo ar gael i fuddiolwyr cymwys am rent fforddiadwy, hael.  Mae Haig Housing hefyd yn cynnig cyngor, arweiniad a gwasanaeth cyfeirio i elusennau eraill i gyn-filwyr a sefydliadau eraill a all helpu'r rhai sydd angen tai.

**Cyngor Wandsworth**

Mae gan Gyngor Wandsworth gwota o eiddo tai cymdeithasol sy'n cael ei ddyrannu'n benodol i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Mae Wandsworth yn gweithio gyda Stoll sy'n gallu enwebu unigolion ar gyfer rhai o'r eiddo.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

## 9.5 Perchentyaeth Cost Isel

Mae aelodau o'r Lluoedd Arfog yn cael blaenoriaeth ar gyfer nifer o gynlluniau perchentyaeth cost isel.

Mae amrywiaeth o gynlluniau perchentyaeth cost isel y gall aelodau a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog wneud cais amdanynt. Y prif gynlluniau yw:

- Mae **Cymorth i Brynu - Cymru**[9] yn fenter sy'n cynnig benthyciadau rhannu ecwiti i brynwyr cartrefi drwy Cymorth i Brynu (Cymru) Cyfyngedig (CiBC) gyda Llywodraeth Cymru yn darparu'r arian.
- Mae cynllun **Rhent yn Gyntaf** Llywodraeth Cymru yn darparu tai rhent am renti canolradd ac yn rhoi'r cyfle i denantiaid brynu eu heiddo'n gyfan gwbl. Gall Cynghorau Lleol ddyrannu arian i'r cynllun drwy eu Grant Tai Cymdeithasol.
- Mae **Cynllun Cymorth Prynu**[10] Llywodraeth Cymru yn rhoi statws â blaenoriaeth i gyn-filwyr yng Nghymru. Mae gwŷr/gwragedd aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi cael eu lladd yn ystod eu gwasanaeth yn gymwys ar gyfer y cynllun hefyd.
- Mae **Cynllun Cymorth i Brynu'r Lluoedd Arfog** yn galluogi aelodau o'r Lluoedd Arfog i fenthyg hyd at 50% o'u cyflog blynyddol (hyd at uchafswm o £25,000) i'w helpu i brynu cartref.

**Haig Housing: Cynllun Lesoedd Rhanberchnogaeth**
**Tai ar gyfer Aelodau neu Gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi'u Clwyfo, eu Hanafu neu sy'n Sâl**

Mae'r Cynllun Lesoedd Rhanberchnogaeth yn galluogi aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi'u clwyfo, eu hanafu neu sy'n sâl (sy'n cael eu rhyddhau'n feddygol neu a ryddhawyd yn feddygol yn ddiweddar o'r Lluoedd Arfog) neu gyn-filwyr, i brynu eiddo iddynt hwy a'u teulu ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Tai Haig. Lle y bydd/y mae'r buddiolwr wedi cael iawndal neu yswiriant, bydd yn galluogi'r unigolyn i ddewis opsiwn rhannu ecwiti, a fydd yn arwain o bosibl at berchnogaeth lawn wrth i'r buddiolwr gynyddu cyfran ei berchentyaeth.

Nod y cynllun yw sicrhau bod modd:

- Prynu cartref mewn lleoliad addas yn agos at deulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymorth.
- Prynu byngalo neu eiddo mwy o faint os oes angen lifft rhwng lloriau.
- Caffael eiddo tra bod unigolyn yn dal i wasanaethu ond cyn cael taliadau yswiriant/AFCS terfynol er mwyn sicrhau bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gallu

[9] Ar gael o: https://llyw.cymru/cymorth-i-brynu-cymru
[10] Ar gael o: https://llyw.cymru/prynu-cartref-cymru

cwblhau unrhyw gymhorthion ac addasiadau cyn i'r unigolyn gael ei ryddhau, a gwrthbwyso'r rhent a godir eto.

## 9.6 Datblygu Tai Cymdeithasol

Efallai y bydd Awdurdodau Lleol a chymdeithasau tai yn awyddus i ddatblygu tai cymdeithasol yn benodol ar gyfer cyn-filwyr mewn ymateb i angen a nodir yn lleol. Gellir nodi amrywiaeth eang o enghreifftiau o arfer da yn genedlaethol.

**Stonewater: Cynllun Hunanadeiladu i Gyn-filwyr**

Gweithiodd Stonewater mewn partneriaeth â Chyngor Swydd Henffordd, y contractwr lleol J Harper & Son Ltd, a'r elusen i gyn-filwyr Alabaré, i ddatblygu cynllun hunanadeiladu i gyn-filwyr a oedd yn cynnwys 18 o gartrefi.

Cymerodd chwe chyn-filwr a oedd wedi bod yn ddigartref yn flaenorol ran yn y prosiect, gan weithio ochr yn ochr â'r contractwr i ennill sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr i wella eu cyfleoedd cyflogaeth. Ar ddiwedd y prosiect, roedd gan bob cyn-filwr gartref fforddiadwy newydd diogel y gallai ef a'i deulu ei rentu.

**Cymdeithas Dai Riverside: Llety Anghenion Cyffredinol**

Mae strategaeth ddatblygu Riverside yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu llety anghenion cyffredinol yn benodol ar gyfer cyn-filwyr. Mae cynlluniau i ddatblygu 40 o unedau llety, a fydd yn cynnwys cymysgedd o lety i deuluoedd ac unigolion, er mwyn diwallu anghenion a nodwyd yn lleol.

**Riverside Scotland: Datblygiadau Newydd**

Mae Riverside Scotland wedi ymrwymo i sicrhau bod mwy na 10% o ddatblygiadau tai cymdeithasol newydd yn cael eu neilltuo ar gyfer cyn-filwyr i'w helpu i osgoi digartrefedd.

Bydd datblygiad Tarryholme yn Irvine yn cynnwys 77 o gartrefi newydd, y caiff 10 ohonynt eu neilltuo ar gyfer cartrefi cyn-filwyr sydd angen tai drwy gytundeb partneriaeth rhwng Riverside Scotland a V1P Ayrshire.

Bydd y cartrefi hyn yn mynd i'r afael yn benodol ag anghenion tai cartrefi sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ar ôl i unigolion gael eu rhyddhau o'r Lluoedd Arfog, neu gartrefi sydd angen cymorth penodedig i'w helpu i ailsefydlu.

Caiff pob eiddo ar y datblygiad ei adeiladu yn unol â'r Safon Tai ar gyfer Anghenion Amrywiol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n hyblyg ac y gellir ei addasu i ddiwallu anghenion newidiol cartrefi dros amser.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

**Prosiect Hunanadeiladu i Gyn-filwyr yn Wrecsam**

Mae Tŷ Ryan yn ddatblygiad hunanadeiladu i gyn-filwyr, sy'n rhoi cyfle i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog ennill cymwysterau a sgiliau masnach gwerthfawr. Mae hefyd yn darparu cartref iddynt.

Cafodd Tŷ Ryan, sy'n cynnwys hyd at 16 o fflatiau, ei ddatblygu mewn partneriaeth â Chyngor Wrecsam, a gyflenwodd y tir, Cymdeithas Dai First Choice, a oedd yn gyfrifol am lunio'r cynllun, a'r Asiantaeth Hunanadeiladu Gymunedol a fu'n mentora'r hunanadeiladwyr yn ystod y cam adeiladu.

Mae hefyd yn bwysig bod eich cynlluniau datblygu yn ystyried anghenion penodol cyn-filwyr – er enghraifft, adeiladau a lleoedd nad ydynt yn atgyfnerthu trawma a datblygu eiddo hygyrch.

## 9.7 Tenantiaid Newydd

Pan fyddwch yn mynd ati i gofrestru tenant newydd, mae'r un mor bwysig gofyn 'y cwestiwn am fod yn gyn-filwr'. Mae'n bosibl na fydd unrhyw un wedi gofyn y cwestiwn hwn yn gynharach yn y broses gofrestru.

Drwy nodi a yw eich tenant newydd yn gyn-filwr neu'n aelod o deulu cyn-filwr, gallwch siarad ag ef am ei anghenion cymorth ehangach ac yna'i gysylltu â'r amrywiaeth eang o gyngor a chymorth a all fod ar gael, gan gynnwys cymorth arbenigol, cymorth ailsefydlu a chymorth ymarferol fel cymorth ariannol i brynu dodrefn, gosodiadau a nwyddau gwyn.

Argymhellir hefyd eich bod yn adolygu eich gwaith cyn-tenantiaeth i weld sut y gallech fynd ati i ddiwallu anghenion cyn-filwyr yn well.

**Argymhellion**

- → Ewch ati i adolygu eich polisi dyraniadau er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gyfraith ac ystyriwch gynnwys arfer gorau yn eich polisi diwygiedig.
- → Peidiwch ag ystyried iawndal cyfandaliad sy'n gysylltiedig â gwasanaeth wrth asesu cymhwystra i ymuno â'r Gofrestr Dai.
- → Ehangwch eithriadau cysylltiad lleol i gynnwys pob cyn-filwr, nid dim ond aelodau presennol o'r Lluoedd Arfog.
- → Estynnwch eithriadau cysylltiad lleol i gynnwys gwŷr/gwragedd/partneriaid sifil sydd wedi cael ysgariad/wedi gwahanu.
- → Ymdriniwch ag eithriadau cysylltiad lleol mewn ffordd hyblyg.
- → Ewch ati i ymgynghori ag elusennau i gyn-filwyr ar unrhyw bolisi dyraniadau diwygiedig.
- → Ystyriwch neilltuo cyfran o eiddo ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog o dan bolisi gosodiadau lleol.
- → Ystyriwch weithio gyda Stoll drwy'r Cynllun Enwebu Cyn-filwyr (VNS) neu neilltuwch stoc dai yn benodol ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog neu eu teuluoedd.
- → Ystyriwch dderbyn atgyfeiriadau drwy Gynllun Atgyfeirio'r Weinyddiaeth Amddiffyn.
- → Ystyriwch ddatblygu tai cymdeithasol yn benodol ar gyfer cyn-filwyr mewn ymateb i angen a nodir yn lleol.
- → Ystyriwch sut y gall unrhyw ddatblygiadau tai newydd ystyried anghenion cyn-filwyr drwy fod yn hygyrch a pheidio ag atgyfnerthu trawma.
- → Nodwch a yw eich tenant newydd yn gyn-filwr neu'n aelod o deulu cyn-filwr drwy ofyn ‘y cwestiwn am fod yn gyn-filwr’ iddo, ac yna'i gysylltu â chymorth perthnasol.

## 10. Tai â Chymorth

### 10.1 Beth yw Tai â Chymorth?

Mae tai â chymorth yn cyfeirio at lety a ddarperir ochr yn ochr â chymorth, goruchwyliaeth neu ofal er mwyn helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl yn y gymuned.

Mae'r sector tai â chymorth yn amrywiol – mae'n cynnwys cymdeithasau tai a thai cyngor lleol, yn ogystal ag elusennau (nad ydynt yn gymdeithasau tai hefyd), a sefydliadau gwirfoddol. Gall cynlluniau a darparwyr tai amrywio'n sylweddol o ran maint a graddfa – o sefydliadau mawr â degau o filoedd o breswylwyr ledled y wlad, i ddarparwyr lleol llai o faint a all fod yn berchen ar un eiddo.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

## 10.2 Tai â Chymorth Arbenigol i Gyn-filwyr

Mae nifer o brosiectau tai â chymorth arbenigol sydd wedi'u hanelu'n benodol at bobl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Mae Clwstwr Tai Cobseo yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau elusennol a thai cymdeithasol sy'n darparu llety i gyn-filwyr.  Mae'r llety yn amrywio o brosiectau hosteli a thâi a chymorth arbenigol  ar gyfer y rhai ag angen penodol i lety i deuluoedd mewn tenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr.

Mae'n bosibl chwilio am lety i gyn-filwyr[11] a ddarperir gan aelodau Clwstwr Tai Cobseo a chefnogwyr y Porth Cyn-filwyr.  Mae'n amrywio o brosiectau hosteli a thai â chymorth arbenigol i lety i deuluoedd.

**Riverside: Tai â Chymorth**

Mae Riverside yn darparu'r gwasanaeth cymorth llety byrdymor canlynol ar gyfer cyn-filwyr:

- **The Beacon, Garsiwn Catterick:** 31 o fflatiau hunangynhwysol â chymorth gan gynnwys ystafell TG, campfa, siop fara artisan, canolfan iechyd a lles, ardal hyfforddi a gardd yn cynnwys rhandir.
- **Mike Jackson House, Garsiwn Aldershot:** 25 o fflatiau hunangynhwysol â chymorth.
- **Hardwick House, Middlesbrough:** 20 o fflatiau hunangynhwysol â chymorth.

Mae gan Riverside ddealltwriaeth unigryw o anghenion cyn-filwyr am fod y gwasanaethau a ddarperir wedi cael eu datblygu gan staff sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn sicrhau dull gweithredu wedi'i dargedu sy'n llwyddiannus iawn o ran gweithio gyda chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Mae Riverside o'r farn bod ‘arbenigwyr drwy brofiad’ yn hollbwysig wrth gynllunio gwasanaethau effeithiol.

[11] Y Porth Cyn-filwyr (2022) Finding a Home.  Ar gael o: https://support.veteransgateway.org.uk/app/finding_a_home

**Agamemnon: Tai â Chymorth**

Mae Agamemnon yn gymdeithas dai sy'n darparu tai gwarchod fforddiadwy a reolir mewn ffordd sensitif i bobl dros 60 oed, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Mae'r holl fflatiau hunangynhwysol wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer y rhai dros 60 oed. Mae rheolwr cynllun ar y safle a cheir mynediad at gyfleusterau cymunedol. Mae'r prosiectau'n rhoi pwys mawr ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol er mwyn goresgyn unigrwydd – gan greu ymdeimlad o gymuned.

**My Space Housing Solutions**

Mae My Space yn darparu 55 o unedau llety hunangynhwysol i gyn-filwyr. Mae cynlluniau byw â chymorth My Space yn rhoi cyfle i breswylwyr ymadfer ar ôl unrhyw broblemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Mae'r sefydliad yn darparu cymorth tai arbenigol a lle diogel i bontio o fywyd milwrol i fywyd sifil.

**Alabaré**

Mae ‘Homes for Veterans’ Alabaré yn darparu llety â chymorth i gyn-filwyr Lluoedd Arfog Prydain sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'n darparu cymorth penodedig i gyn-filwyr ledled Cymru a Lloegr – yn benodol, Wiltshire, Hampshire, Swydd Gaerloyw, Dyfnaint, Dorset, yn ogystal â Gogledd a De Cymru.

**Veterans Launchpad**

Mae Launchpad yn darparu llety a chymorth arall gydag arbenigedd darparwyr arbenigol er mwyn helpu cyn-filwyr i ddod â sefydlogrwydd i'w bywydau a phontio'r llwyddiannus o fywyd milwrol i fywyd sifil.

**Alabaré a Grŵp Cynefin**

Mae Alabaré, mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin, wedi datblygu llety â chymorth i 9 cyn-filwr yng Nghonwy. Dyma'r cyfleuster penodedig cyntaf i gyn-filwyr yn Sir Conwy. Ochr yn ochr â'r llety, gall preswylwyr gael gafael ar yr hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw'n annibynnol gan gynnwys rheoli cyllideb, bwyta'n iach, siopa a sgiliau bywyd.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

### 10.3 Gofyn y Cwestiwn am fod yn Gyn-filwr

Er bod llety â chymorth arbenigol ar gael i gyn-filwyr ledled y wlad, bydd llawer o gyn-filwyr yn byw mewn tai â chymorth cyffredinol. Felly, mae'n bwysig iawn bod darparwyr llety â chymorth yn gwybod sut i nodi cyn-filwr ac yna'i gysylltu â'r cymorth arbenigol ehangach sydd ar gael.

Mae'n bwysig bod pob darparwyr tai â chymorth yn gofyn 'y cwestiwn am fod yn gyn-filwr' i breswylwyr newydd. Mae'n hanfodol deall a yw preswylydd newydd yn gyn-filwr er mwyn sicrhau y gellir deall unrhyw anghenion sy'n ymwneud â'i wasanaeth a mynd i'r afael â nhw wrth gynllunio cymorth.

Mae'r un mor bwysig egluro pam rydych yn gofyn y cwestiwn hwn er mwyn gallu cysylltu'r unigolyn â'r cymorth ehangach sydd ar gael.

Byddem yn argymell eich bod yn sicrhau bod ffurflenni yn gofyn 'y cwestiwn am fod yn gyn-filwr', bod staff yn cael eu hyfforddi i ofyn y cwestiwn a'u bod yn gwybod pam maent yn gofyn y cwestiwn.

Lle mae darparwyr tai â chymorth yn derbyn atgyfeiriadau gan Awdurdodau Lleol neu sefydliadau eraill, byddem yn argymell gofyn i asiantaethau atgyfeirio nodi a yw'r cwsmer yn gyn-filwr ar y ffurflen atgyfeirio.

Lle mae gennych restr aros ar gyfer tai gwag, efallai yr hoffech ystyried rhoi blaenoriaeth i gyn-filwyr.

### 10.4 Cynllunio Cymorth

Lle nodwyd bod preswylydd newydd yn gyn-filwr, dylai unrhyw anghenion cymorth sy'n ymwneud â'i brofiad o wasanaethu gael eu hystyried yn y sesiynau cynllunio cymorth. Gall hyn gynnwys cysylltu â sefydliadau lleol a chenedlaethol ehangach i gyn-filwyr i gael cymorth arbenigol.

Mae Triangle Consultancy wedi datblygu'r Independence Star[12], sef adnodd i bobl sy'n cael cymorth gan sefydliadau'r Lluoedd Arfog i wella ansawdd eu bywyd.

Cafodd yr Independence Star ei ddatblygu mewn cydweithrediad â Chymdeithas y Swyddogion, gyda mewnbwn pellach gan Help for Heroes.

---

[12] Ar gael o: https://www.outcomesstar.org.uk/using-the-star/see-the-stars/independence-star/

Mae'r Independence Star yn cwmpasu chwe maes canlyniadau allweddol:

- Cyllid
- Tai
- Iechyd
- Gweithgareddau
- Bywyd cymdeithasol
- Llesiant

### 10.5 Camu Ymlaen

Wrth gynllunio i gamu ymlaen o dai â chymorth, dylai staff cymorth fod yn ymwybodol o'r holl ddarpariaeth a help arbenigol a nodir yn y pecyn cymorth hwn er mwyn sicrhau bod cyn-filwyr yn cael y siawns orau bosibl o gamu ymlaen yn llwyddiannus. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn cael y flaenoriaeth gywir ar restrau aros ar gyfer tai cymdeithasol, ystyried opsiynau posibl drwy'r Cynllun Enwebu Cyn-filwyr a Chynllun Atgyfeirio'r Weinyddiaeth Amddiffyn, a chael gafael ar unrhyw grantiau a chymorth arbenigol i gamu ymlaen.

**Argymhellion**

→ Sicrhewch eich bod yn gofyn 'y cwestiwn am fod yn gyn-filwr' i breswylwyr newydd ac yna'u cysylltu â'r cymorth perthnasol yn ôl yr angen.
→ Ystyriwch flaenoriaethu llety gwag ar gyfer cyn-filwyr.
→ Sicrhewch fod gwaith cynllunio cymorth yn ystyried unrhyw anghenion cymorth sydd wedi codi oherwydd hanes gwasanaethu'r cleient, ac yn eu cysylltu â chymorth arbenigol.
→ Sicrhewch fod staff yn ymwybodol o'r holl ddarpariaeth a help arbenigol sydd ar gael i helpu pobl i gamu ymlaen yn llwyddiannus.

## 11. Gwybodaeth ac Ymwybyddiaeth Staff

Mae hyfforddiant a gwybodaeth staff yn hollbwysig wrth ddarparu gwasanaeth gwell i gyn-filwyr a'u teuluoedd. Bydd rhai sefydliadau yn gweithio'n rheolaidd gyda chyn-filwyr a byddant wedi datblygu arbenigedd mewnol. Efallai y bydd eraill yn dod i gysylltiad â chyn-filwyr yn llai aml. Mae'n bwysig iawn bod staff sy'n dod i gysylltiad â chyn-filwyr yn llai aml o bosibl wedi cael y cyfle i fynychu hyfforddiant, ond mae hyd yn oed yn bwysicach bod ganddynt fynediad at adnoddau i sicrhau y gallant gael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf er mwyn rhoi'r cyngor gorau posibl.

Rydym yn argymell sicrhau bod staff presennol yn cael y wybodaeth a'r hyfforddiant diweddaraf, a bod hyn yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff hefyd.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

Gall Hyrwyddwyr Cyn-filwyr mewnol sicrhau bod gan sefydliad arbenigedd y gall aelodau eraill o'r tîm fanteisio arno.

Mae'n bwysig sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol ac yn ystyried anghenion cyn-filwyr.

Mae hefyd yn hollbwysig meithrin cysylltiadau ag elusennau cenedlaethol a, hyd yn oed yn bwysicach, elusennau lleol, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o rolau eich gilydd a sut i gael gafael ar wasanaethau.

**Riverside: Hyrwyddwyr Cyn-filwyr**

Mae gan Riverside rwydwaith o Hyrwyddwyr Cyn-filwyr ym mhob un o'u hardaloedd daearyddol yn Lloegr a'r Alban. Mae'r hyrwyddwyr yn datblygu arbenigedd ac yn codi ymwybyddiaeth – nhw yw'r pwynt cyswllt unigol i roi cymorth ac arweiniad i'w cydweithwyr. Maent hefyd yn ymgymryd â gwaith ymchwil ac yn ymgysylltu â rhwydweithiau a fforymau lleol i gyn-filwyr.

**De Swydd Efrog: Datblygu Modiwl E-ddysgu De Swydd Efrog**

Mae pecyn e-ddysgu, sy'n ymdrin yn benodol â chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n ddigartref a'u teuluoedd, wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i swyddogion digartrefedd, rheolwyr ystadau a swyddogion tai ar y ‘rheng flaen’ ym mhob cyngor yn Ne Swydd Efrog. Mae hefyd wedi cael ei gyflwyno i sefydliadau ac elusennau allweddol eraill sy'n ymdrin â chyn-filwyr a phartneriaid eraill mewn Grwpiau Cyfamod Cymunedol.

**Riverside: Hwb Cyn-filwyr**

Mae mewnrwyd Riverside yn cynnwys hwb cyn-filwyr sy'n galluogi cydweithwyr i gael gafael ar wybodaeth a chyngor ar gyn-filwyr, ochr yn ochr â manylion Hyrwyddwyr Cyn-filwyr mewnol sy'n gallu rhoi cyngor. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i uwchlwytho rhaglen hyfforddiant ar-lein a fydd yn cynnwys adnoddau a gwybodaeth bellach.

**Argymhellion**

- → Sicrhewch fod pob aelod o'r staff yn gwybod sut i ofyn ‘y cwestiwn am fod yn gyn-filwr’ a pham ei fod yn gofyn y cwestiwn hwnnw.
- → Sicrhewch fod gan staff ddealltwriaeth glir o'r camau y mae'n rhaid eu cymryd cyn gynted ag y caiff cyn-filwr ei nodi.
- → Sicrhewch fod gan staff y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei ddweud am gyn-filwyr a thai sy'n berthnasol i'w swydd.
- → Sicrhewch fod pob aelod o staff rheng flaen yn cael mynediad at hyfforddiant ar gyn-filwyr a thai, a bod yr hyfforddiant hwnnw'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.
- → Sicrhewch fod staff yn ymwybodol o sefydliadau cenedlaethol a lleol i gyn-filwyr.
- → Cysylltwch â sefydliadau lleol i gyn-filwyr ac ewch ati i feithrin cydberthnasau gwaith da a dealltwriaeth o rolau eich gilydd.
- → Sicrhewch fod staff yn gallu cael gafael ar adnoddau a gwybodaeth.
- → Diweddarwch bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod arweiniad clir ar gael i'r staff.
- → Penodwch Hyrwyddwr Cyn-filwyr yn eich sefydliad.

## 12. Beth Gall ein Sefydliad ei Wneud fel Cyflogwr?

Yn ogystal â meddwl sut y gallwch fynd ati i wella'r gwasanaeth rydych yn ei gynnig i'ch cwsmeriaid sy'n gyn-filwyr, mae'r un mor bwysig meddwl am eich rôl fel cyflogwr, sut y gallwch gefnogi cyn-filwyr a gyflogir gennych, a sut y gallwch sicrhau bod eich sefydliad yn ddeniadol i gyn-filwyr ac aelodau o'r Lluoedd Arfog.

Gallai hyn gynnwys recriwtio cyn-filwyr ac aelodau o'r Lluoedd Arfog fel aelodau o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, cydnabod y sgiliau y gall y sefydliad fanteisio arnynt, ac adolygu polisïau adnoddau dynol mewn perthynas â chyflogeion sy'n filwyr wrth gefn.

Mae'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn, a lansiwyd yn 2014 ac sy'n rhan allweddol o Gyfamod y Lluoedd Arfog, yn annog cyflogwyr i gefnogi'r sector amddiffyn ac ysbrydoli eraill i wneud yr un peth.

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

### Riverside

Mae Riverside yn mynd ati i recriwtio cyn-filwyr ac aelodau o'r Lluoedd Arfog i'w timau staff, gan gydnabod y profiad bywyd a'r sgiliau sydd ganddynt – ac mae nifer sylweddol o wasanaethau i gyn-filwyr yn cael eu rhedeg gan gyn-filwyr.

Mae Riverside yn rhoi hyd at bythefnos o wyliau â thâl i gyflogeion sy'n filwyr wrth gefn gwirfoddol fynychu hyfforddiant i filwyr wrth gefn.

Lle caiff milwyr wrth gefn eu galw i wasanaethu, bydd Riverside yn rhoi cymorth i'r cyflogai ac yn sicrhau y gall ddychwelyd i'r un math o swydd roedd yn ei wneud cyn cael ei alw i wasanaethu, ar yr un telerau ac amodau.

Cynhaliodd Riverside ddiwrnodau agored hefyd i groesawu aelodau o'r Lluoedd Arfog a'u hannog i ystyried Riverside yn sefydliad sy'n gyfeillgar i gyn-filwyr sy'n cydnabod gwerth eu sgiliau, eu hetheg gwaith a'u profiad bywyd.

### Black Country Housing Group

Mae Black Country Housing Group (BCHG) wedi ennill gwobr aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn am y cymorth y mae'n ei roi i'r cyn-filwyr sy'n rhan o'i weithlu.

Cafodd BCHD ei gydnabod am y mentrau canlynol:

- Helpu cyn-filwyr i gael gwaith.
- Hyrwyddo, annog a helpu sefydliadau eraill i lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog.
- Rhoi cyfleoedd i gydweithwyr gael absenoldeb arbennig.
- Recriwtio aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog.
- Noddi Diwrnod y Lluoedd Arfog yn Dudley.

### Argymhellion

→ Ewch ati i adolygu polisïau cyflogeion er mwyn sicrhau eich bod yn ystyried anghenion cyn-filwyr a milwyr wrth gefn.

→ Ewch ati i adolygu eich polisïau recriwtio mewnol eich hun er mwyn ystyried sut y gallwch ddenu cyn-filwyr

## 13.Cymorth i Gyn-filwyr

Mae'r adran hon o'r pecyn cymorth yn rhoi manylion amrywiaeth o sefydliadau cenedlaethol sy'n cefnogi cyn-filwyr, a all fod yn adnodd defnyddiol i aelodau o staff.

Dylech ategu'r rhestr hon â manylion sefydliadau lleol sy'n gweithio yn eich ardal.

**Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin (AFF)**

Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin yw llais teuluoedd y Fyddin. Mae'n grymuso ac yn gweithredu fel eiriolwr a thyst arbenigol er mwyn hyrwyddo ansawdd bywyd sy'n adlewyrchu Cyfamod y Lluoedd Arfog.
www.aff.org.uk

**Alabaré – Cartrefi i Gyn-filwyr Cymru**

Mae Alabaré yn rhoi cymorth penodedig i gyn-filwyr yng Ngogledd a De Cymru – yn benodol Abertawe, Caerfyrddin, Clydach, Caerdydd, Pontypridd a Merthyr Tudful yn Ne Cymru, a Glan Conwy, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn yng Ngogledd Cymru.
www.alabare.co.uk

**Cobseo**

Mae Clwstwr Tai Cydffederasiwn Elusennau'r Lluoedd Arfog (Cobseo) yn cynnwys prif ddarparwyr tai anghenion cyffredinol a thai â chymorth i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn ei Gyfeirlyfr o Wasanaethau Penodedig i Gyn-filwyr.
www.Cobseo.org.uk

**First Light Trust**

Mae First Light Trust yn rhoi cymorth i bawb sydd wedi gwasanaethu gyda'r Gwasanaethau Brys a'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.
www.firstlighttrust.co.uk

**Forces Connect**

Ap symudol am ddim yw 'Forces Connect' sy'n cyfeirio cyn-filwyr at sefydliadau sy'n cynnig cymorth.

**Dim Cyn-filwyr Digartref**

Mae'r ymgyrch Dim Cyn-filwyr Digartref yn darparu cyfeirlyfr o bob uned llety a ddarperir yn benodol ar gyfer cyn-filwyr a sut i gael gafael arni yn y wlad:
https://s22009.pcdn.co/wp-content/uploads/Directory-of-Dedicated-Services-for-Veterans-2020.pdf

**Shelter Cymru**

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

Mae Shelter yn rhoi amrywiaeth o gyngor ar faterion sy'n ymwneud â thai, gan gynnwys digartrefedd.
0345 0755005
https://sheltercymru.org.uk

**SPACES**
Mae'r Ganolfan Llety i Bobl Sengl ar gyfer Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog (SPACES) yn wasanaeth cyngor a rheoli achosion cenedlaethol. Mae SPACES yn darparu lleoliadau llety uniongyrchol.

Mae'r gwasanaethau yn targedu'r bobl fwyaf hyglwyf sy'n gadael y Lluoedd Arfog – ni waeth beth fo'u rheng, hyd eu gwasanaeth neu'r rheswm am gael eu rhyddhau. Mae SPACES yn cynnwys cymorth i bobl sengl sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae staff profiadol, medrus yn darparu cymorth wedi'i deilwra gan gynnwys:

- Dod o hyd i lety priodol ar gyfer pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog a sicrhau eu bod yn cael y llety hwnnw ar ôl iddynt gael eu rhyddhau er mwyn lleihau'r risg o ddigartrefedd/cysgu allan.
- Dod o hyd i lety i gyn-filwyr a sicrhau eu bod yn cael y llety hwnnw.
- Rhoi cymorth cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r Lluoedd Arfog (hyd at 12 mis).

www.riverside.org.uk

**SSAFA**
Un o elusennau'r Lluoedd Arfog yw SSAFA sy'n rhoi cymorth gydol oes i unrhyw un sy'n gwasanaethu yn y Llynges Frenhinol, y Fyddin Brydeinig neu'r Llu Awyr Brenhinol ar hyn o bryd, neu sydd wedi gwneud hynny unrhyw bryd yn y gorffennol, a'u teuluoedd.
www.ssafa.org.uk

**Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges (NFF)**
Mae Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges yn cynnig cynrychiolaeth a llais annibynnol i deuluoedd y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol. Mae hefyd yn rhoi cymorth ac arweiniad ar faterion sy'n effeithio ar fywyd bob dydd sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o deulu'r Llynges.
www.nff.org.uk

**Cronfa Les y Llu Awyr Brenhinol**
Mae Cronfa Les y Llu Awyr Brenhinol yn rhoi cymorth i deulu'r Llu Awyr Brenhinol pan fydd mewn angen ac yn cefnogi morâl a llesiant y rhai sy'n gwasanaethu gyda'r Llu Awyr Brenhinol.
www.rafbf.org

**Ffederasiwn Teuluoedd y Llu Awyr Brenhinol**

Mae Ffederasiwn Teuluoedd y Llu Awyr Brenhinol yn rhoi cymorth, cefnogaeth a llais annibynnol i holl bersonél y Llu Awyr Brenhinol a'u teuluoedd – boed hwy'n bersonél rheolaidd neu wrth gefn, yn sengl neu'n briod – mewn perthynas â materion neu bryderon a all fod ganddynt.
www.raf-ff.org.uk

**The Ripple Pond**

Mae'r Ripple Pond yn darparu swyddogion cymunedol cymorth cymheiriaid i oedolion sy'n aelodau o deuluoedd personél a chyn-filwyr Lluoedd Arfog Prydain sydd wedi cael eu hanafu'n gorfforol neu'n seicolegol.
www.theripplepond.org

**Y Lleng Frenhinol Brydeinig**

Mae'n helpu aelodau a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog, eu teuluoedd a'u dibynyddion.
Llinell Gymorth Genedlaethol: 0808 802 8080
www.britishlegion.org.uk

**Elusen y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Prydeinig (RNRMC)**

RNRMC yw prif elusen y Llynges Frenhinol. Mae'n cefnogi morwyr, môr-filwyr a'u teuluoedd am oes.
www.rnrmc.org.uk

**Veterans Aid**

Mae Veterans Aid yn darparu gwasanaeth cenedlaethol i gyn-filwyr sy'n wynebu digartrefedd a chysgu ar y stryd.
www.veterans-aid.net
Rhadffôn: 0800 012 6867
info@veterans-aid.net

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

**GIG Cymru i Gyn-filwyr**

Mae'n rhoi cymorth i gyn-filwyr sy'n wynebu anawsterau iechyd meddwl sy'n ymwneud yn benodol â'u gwasanaeth milwrol.

Gall unrhyw gyn-filwr sy'n byw yng Nghymru, sydd wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod gyda Lluoedd Arfog Prydain naill ai fel aelod rheolaidd neu wrth gefn ac sydd ag 'anaf seicolegol sy'n gysylltiedig â gwasanaeth' gael ei atgyfeirio drwy'r dudalen atgyfeirio.
http://veteran.rhyswelshdemo.co.uk/how-to-self-refer/refer-someone-else.html
https://www.veteranswales.co.uk

**Y Porth Cyn-filwyr**

Y Porth Cyn-filwyr yw'r pwynt cyswllt cyntaf i gyn-filwyr sydd angen cymorth a gwybodaeth am unrhyw beth o ofal iechyd a thai i gyflogadwyedd, cyllid, cydberthnasau personol a mwy. Mae'r Porth Cyn-filwyr ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Mae'r Porth Cyn-filwyr yn cynnwys rhestr o lety gwag ar gyfer cyn-filwyr yn benodol ledled y wlad yn https://support.veteransgateway.org.uk/app/finding_a_home.

www.veteransgateway.org.uk
Ffôn: 0808 802 1212
Neges destun: 81212 i gael eich galw'n ôl.

## Atodiad 1: Rhestr wirio

| Rhestr wirio | |
|---|---|
| **Nodi Cyn-filwyr** | |
| Ewch ati i adolygu eich ffurflenni tai allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn gofyn ‘y cwestiwn am fod yn gyn-filwr’. (Gall hyn gynnwys ffurflen y Gofrestr Dai, ffurflen asesu digartrefedd, ffurflen atgyfeirio, ffurflen tenant newydd, dogfennau cynllunio cymorth.) | ☐ |
| Sicrhewch fod y staff yn gallu esbonio pam maen nhw'n gofyn y cwestiwn hwn ac yn deall diben gofyn y cwestiwn. | ☐ |
| **Cyfamod y Lluoedd Arfog** | |
| Sicrhewch fod staff yn deall beth yw Cyfamod y Lluoedd Arfog. | ☐ |
| Awdurdodau Lleol – Ewch ati i adolygu'r cynllun gweithredu sydd gennych ar gyfer Cyfamod y Lluoedd Arfog er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys camau gweithredu ac addewidion tai allweddol ar gyfer gwella mynediad at dai a chymorth i gyn-filwyr. | ☐ |
| Cymdeithasau Tai a Darparwyr Tai â Chymorth – Llofnodwch y Cyfamod Corfforaethol | ☐ |
| **Dull Gweithredu Strategol** | |
| Dylai Strategaethau Rhaglenni Cymorth Tai roi ystyriaeth briodol i anghenion cyn-filwyr er mwyn deall natur a graddau digartrefedd ymhlith cyn-filwyr a'u teuluoedd a'u hanghenion tai a chymorth ehangach. | ☐ |
| Ewch ati i adolygu aelodaeth Fforymau/Cynghreiriau Digartrefedd lleol er mwyn cynnwys sefydliadau ac elusennau lleol i gyn-filwyr. | ☐ |
| Cyfeiriwch at Gyfamod y Lluoedd Arfog wrth adolygu a datblygu Strategaethau newydd ar gyfer Rhaglenni Cymorth Tai. | ☐ |
| Sicrhewch fod Strategaethau Tai yn ystyried anghenion tai cyn-filwyr lle nodir angen lleol. | ☐ |
| **Gwybodaeth a Chyngor Pwrpasol** | |
| Sicrhewch fod gwybodaeth fanwl a phwrpasol ar gael i aelodau o'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr am sefydliadau cymorth a'r amrywiaeth o opsiynau tai sydd ar gael ar wefannau Awdurdodau Lleol. | ☐ |
| Sicrhewch fod y wefan yn cynnwys dolen i'r Porth Cyn-filwyr | ☐ |
| Sicrhewch fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r Porth Cyn-filwyr | ☐ |
| Gweithiwch yn agos gydag elusennau lleol y Lluoedd Arfog er mwyn sefydlu llwybrau atgyfeirio clir. | ☐ |

Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

| | |
|---|---|
| **Atal Digartrefedd Ymhlith Cyn-filwyr** | |
| Ewch ati i ymyrryd yn gynnar ac ymgymryd â gwaith atal drwy weithio gyda chyn-filwyr o'r adeg y rhoddir 'Tystysgrif Diwedd Hawl' er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i atal digartrefedd. Sicrhewch fod gweithdrefnau yn adlewyrchu hyn. | ☐ |
| Rhowch ystyriaeth i ddatblygu opsiynau tai pwrpasol lle y nodir angen. | ☐ |
| **Digartrefedd** | |
| Lluniwch grynodeb un dudalen am ddigartrefedd a chyn-filwyr i'w ddefnyddio gan staff | ☐ |
| Lluniwch restr o gwestiynau ategol i gyd-fynd â'r ffurflen asesu digartrefedd ar gyfer asesu angen blaenoriaethol a briodolir i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog. | ☐ |
| **Tai Cymdeithasol** | |
| Ewch ati i adolygu eich polisi dyraniadau er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gyfraith ac ystyriwch gynnwys arfer gorau yn eich polisi diwygiedig. | ☐ |
| Peidiwch ag ystyried iawndal cyfandaliad sy'n gysylltiedig â gwasanaeth wrth asesu cymhwystra i ymuno â'r Gofrestr Dai. | ☐ |
| Ehangwch eithriadau cysylltiad lleol i gynnwys pob cyn-filwr, nid dim ond aelodau presennol o'r Lluoedd Arfog. | |
| Estynnwch eithriadau cysylltiad lleol i gynnwys gwŷr/gwragedd/partneriaid sifil sydd wedi cael ysgariad/wedi gwahanu | ☐ |
| Ymdriniwch ag eithriadau cysylltiad lleol mewn ffordd hyblyg. | ☐ |
| Ewch ati i ymgynghori ag elusennau i gyn-filwyr ar unrhyw bolisi dyraniadau diwygiedig. | ☐ |
| Ystyriwch neilltuo cyfran o eiddo ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog o dan bolisi gosodiadau lleol. | ☐ |
| Ystyriwch weithio gyda Stoll drwy'r Cynllun Enwebu Cyn-filwyr (VNS) neu neilltuwch stoc dai yn benodol ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog neu eu teuluoedd. | ☐ |
| Ystyriwch dderbyn atgyfeiriadau drwy Gynllun Atgyfeirio'r Weinyddiaeth Amddiffyn. | ☐ |
| Ystyriwch ddatblygu tai cymdeithasol yn benodol ar gyfer cyn-filwyr mewn ymateb i angen a nodir yn lleol. | ☐ |
| Ystyriwch sut y gall unrhyw ddatblygiadau tai newydd ystyried anghenion cyn-filwyr drwy fod yn hygyrch a pheidio ag atgyfnerthu trawma. | ☐ |

| | |
|---|---|
| Nodwch a yw eich tenant newydd yn gyn-filwr neu'n aelod o deulu cyn-filwr drwy ofyn 'y cwestiwn am fod yn gyn-filwr' iddo, ac yna'i gysylltu â chymorth perthnasol. | ☐ |
| **Tai â Chymorth** | |
| Sicrhewch eich bod yn gofyn 'y cwestiwn am fod yn gyn-filwr' i breswylwyr newydd ac yna'u cysylltu â'r cymorth perthnasol yn ôl yr angen. | ☐ |
| Ystyriwch flaenoriaethu llety gwag ar gyfer cyn-filwyr. | ☐ |
| Sicrhewch fod gwaith cynllunio cymorth yn ystyried unrhyw anghenion cymorth sydd wedi codi oherwydd hanes gwasanaethu'r cleient, ac yn eu cysylltu â chymorth arbenigol. | ☐ |
| Sicrhewch fod staff yn ymwybodol o'r holl ddarpariaeth a help arbenigol sydd ar gael i helpu pobl i gamu ymlaen yn llwyddiannus. | ☐ |
| **Gwybodaeth ac Ymwybyddiaeth Staff** | |
| Sicrhewch fod pob aelod o'r staff yn gwybod sut i ofyn 'y cwestiwn am fod yn gyn-filwr' a pham ei fod yn gofyn y cwestiwn hwnnw. | ☐ |
| Sicrhewch fod gan staff ddealltwriaeth glir o'r camau y mae'n rhaid eu cymryd cyn gynted ag y caiff cyn-filwr ei nodi. | ☐ |
| Sicrhewch fod gan staff y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei ddweud am gyn-filwyr a thai sy'n berthnasol i'w swydd. | ☐ |
| Sicrhewch fod pob aelod o staff rheng flaen yn cael mynediad at hyfforddiant ar gyn-filwyr a thai, a bod yr hyfforddiant hwnnw'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. | ☐ |
| Sicrhewch fod staff yn ymwybodol o sefydliadau cenedlaethol a lleol i gyn-filwyr. | ☐ |
| Cysylltwch â sefydliadau lleol i gyn-filwyr ac ewch ati i feithrin cydberthnasau gwaith da a dealltwriaeth o rolau eich gilydd. | ☐ |
| Sicrhewch fod staff yn gallu cael gafael ar adnoddau a gwybodaeth. | ☐ |
| Diweddarwch bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod arweiniad clir ar gael i'r staff. | ☐ |
| Penodwch hyrwyddwr cyn-filwyr yn eich sefydliad. | ☐ |
| **Beth y gall eich sefydliad ei wneud fel cyflogwr?** | |
| Ewch ati i adolygu polisïau cyflogeion er mwyn sicrhau eich bod yn ystyried anghenion cyn-filwyr a milwyr wrth gefn. | ☐ |
| Ewch ati i adolygu eich polisïau recriwtio mewnol eich hun er mwyn ystyried sut y gallwch ddenu cyn-filwyr. | ☐ |


Homeless Link 2022. Cedwir pob hawl.
Mae Homeless Link yn elusen (rhif 1089173) ac yn gwmni (rhif 04313826)

## Atodiad 2:  Homeless Link

Homeless Link yw'r elusen aelodaeth genedlaethol ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn Lloegr. Ein nod yw datblygu, ysbrydoli, cefnogi a chynnal grŵp o sefydliadau sy'n cydweithio er mwyn sicrhau dyfodol cadarnhaol i bobl sy'n ddigartref neu mewn tai i bobl hyglwyf.

Rydym yn cynrychioli mwy na 900 o sefydliadau ledled Lloegr, ac felly rydym mewn sefyllfa unigryw i weld graddfa a natur y drasiedi sy'n gysylltiedig â digartrefedd. Rydym yn gweld y bylchau mewn data; y rhwystrau o ran polisi cenedlaethol; y rhwystrau o ran cyllid ac arbenigedd; y rhwystrau i'r system a'r rhwystrau o ran agweddau.  Ond, yn hanfodol, rydym hefyd yn gweld yr arferion cadarnhaol a'r atebion sy'n gweithio – ac rydym yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r rhain.

Fel sefydliad, credwn y gall pethau fod yn well ac y dylent fod yn well:  nid am ein bod yn naïf/nad ydym yn gwybod beth sy'n digwydd mewn realiti, ond am ein bod wedi gweld ac wedi profi newid cadarnhaol radical yn y ffordd y caiff systemau a gwasanaethau eu darparu – ac mae hynny'n rhoi'r gobaith i ni ar gyfer dyfodol gwahanol.

Rydym yn cefnogi ein haelodau drwy ymchwil, arweiniad a dysgu a thrwy hyrwyddo newid mewn polisi a fydd yn sicrhau bod gan bawb lle y gallant alw'n gartref a'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w gadw.

### Beth Rydym yn ei Wneud

Homeless Link yw'r elusen aelodaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd rheng flaen. Rydym yn gweithio i wella gwasanaethau drwy ymchwil, arweiniad a dysgu, a thrwy ymgyrchu dros newid mewn polisi a fydd yn sicrhau bod gan bawb lle y gallant alw'n gartref a'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w gadw.


## Homeless Link

Minories House
2-5 Minories
London
EC3N 1BJ
www.homeless.org.uk
@HomelessLink


**Let's End Homelessness Together**

Homeless Link

